# RHYBUDD O GYFARFOD / NOTICE OF MEETING

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

*Emyr Williams*
*Prif Weithredwr*
*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*
*Penrhyndeudraeth*
*Gwynedd LL48 6LF*
*Ffôn/Phone (01766) 770274*
*E.bost/E.mail : parc@eryri.llyw.cymru*

*Snowdonia National Park Authority*

*Emyr Williams*
*Chief Executive*
*Snowdonia National Park Authority*
*Penrhyndeudraeth*
*Gwynedd LL48 6LF*
*Ffacs/Fax (01766)771211*
*Gwefan/Website: : www.eryri.llyw.cymru*

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | *Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri* |
| **Dyddiad:** | *Dydd Mercher 3 Mehefin 2020* |
| **Amser:** | **10.00 y.b.** |
| ***Anfonir cyfarwyddiadau ymuno at yr Aelodau ar wahân*** | |

| | |
|---|---|
| **Meeting:** | *Snowdonia National Park Authority* |
| **Date:** | *Wednesday 3 June 2020* |
| **Time:** | **10.00 a.m.** |
| ***Joining instructions will be sent to Members separately*** | |

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
***Members appointed by Gwynedd Council***
*Y Cynghorydd / Councillor :*
*Freya Hannah Bentham, Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd,*
*Annwen Hughes, Judith Mary Humphreys, Edgar Wyn Owen,*
*Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
***Members appointed by Conwy County Borough Council***
*Y Cynghorydd / Councillor :*
*Philip Capper, Wyn Ellis-Jones, Ifor Glyn Lloyd;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru***
***Members appointed by The Welsh Government***
*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Ms. Elinor Gwynn,*
*Mr. Tim Jones, Mr. Neil Martinson, Mr Owain Wyn.*

# R H A G L E N

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
   Cael unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd.

2. **Datgan Diddordeb**
   Cael unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.

3. **Cofnodion**
   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 5ed Chwefror 2020, fel rhai cywir. (Copi yma)

4. **Cynllun Archwilio 2020**
   Cyflwyno adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru. (Copi yma)

5. **Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2019/20**
   Gohirio yr eitem ac ail-drefnu cymeradwyaeth.

6. **Cynllun Corfforaethol 2020/21**
   Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

7. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2020/21**
   Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

8. **Rheoli'r Trysorlys – Adroddiad Blynyddol 2019/20**
   Cyflwyno Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid (Copi yma)

9. **Proffil Risg yr Awdurdod**
   Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

10. **Adroddiadau Gweithgor yr Aelodau**
    Cyflwyno adroddiadau y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 22ain o Ionawr a 4ydd Mawrth 2020. (Copïau yma)

11. **Cyfarfodydd Sefydliadau eraill**
    Derbyn adroddiadau llafar ac ysgrifenedig gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd diweddar y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

**EITEM RHIF 3**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**DYDD MERCHER 5ed CHWEFROR 2020**

Mr. Owain Wyn (Cadeirydd) (Llywodraeth Cymru)

***PRESENNOL***:

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cyng Freya Bentham, Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts;

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cyng Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

**Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Ms. Elinor Gwynn;

**Swyddogion**
Mr. Emyr Williams, Mr. G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Mr. Dafydd Edwards, Mr. Emyr Roberts, Mrs. Anwen Gaffey.

**Ymddiheuriadau**
Cyng Philip Capper, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams;
Mr. Neil Martinson.

1. Cyhoeddiadau’r Cadeirydd

(1) Croesawodd y Cadeirydd Mr. Dafydd Edwards, y Swyddog Adran 151, i'r cyfarfod yn dilyn ei salwch diweddar.

(2) Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod Mr Brian Angell yn aros am driniaeth ysbyty ar hyn o bryd, a dymunodd yn dda iddo ar ran yr Aelodau.

(3) Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad dwysaf yr Awdurdod ar farwolaeth ddiweddar Mr Bryan Rees Jones, a oedd wedi bod yn Gyfreithiwr yn yr Awdurdod ers blynyddoedd lawer.

(4) Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr ymgynghoriad chwe wythnos ar Gynllun Eryri bellach ar y gweill ac os bydd unrhyw Aelod eisiau copi papur o Gynllun Eryri, gellid trefnu hyn. Llongyfarchodd y Cadeirydd yr holl staff sy'n ymwneud â Chynllun Eryri am eu gwaith

(5) Dywedodd y Cadeirydd y bydd Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol yn cyfarfod â Hannah Blythyn, y Dirprwy Weinidog ar 12fed Chwefror 2020 i drafod nifer o faterion.

(6) Nododd y Cadeirydd y byddai'r cais cynllunio ar gyfer y gwaith adnewyddu ym Mhlas Tan y Bwlch yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y 4ydd o Fawrth 2020.

(7) Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau annog ceisiadau gan unrhyw berson a allai fod â diddordeb mewn dod yn Aelod o Fforwm Mynediad Ardal y Gogledd, yn ddelfrydol unigolyn sydd â phrofiad mewn rheoli tir neu'r sector hamddena awyr agored.

(8) Cyfeiriodd y Cadeirydd at y tanau gwyllt yn Awstralia a cholli bywyd anifeiliaid / pryfetach ayyb. Dywedodd fod mwy na 10% o'r ardal a gwmpesir gan Barciau Cenedlaethol New South Wales wedi'u llosgi a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr hyn y gallai'r Awdurdod ei wneud yng ngoleuni'r drasiedi hon.

(9) Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau y bydd yr Awdurdod yn dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed yn 2021 ac fel rhan o'r dathliadau hyn, bydd S4C yn comisiynu cyfres o raglenni am Eryri.

(10) Anogodd y Cadeirydd yr Aelodau i fynychu un o Weithdai Egwyddorion Twristiaeth y Dyfodol Gwynedd ac Eryri. Roedd y gweithdai yn cael eu trefnu ar y cyd gan yr Awdurdod a Chyngor Gwynedd ar y 25ain o Chwefror yn Arfon (amser a lleoliad i'w gadarnhau) ac ar brynhawn 27ain Chwefror ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog. Adroddodd y Cadeirydd fod ystadegau twristiaeth ar gyfer 2018 wedi dangos cynnydd amlwg yn nifer yr ymwelwyr sy'n mynd i gopa'r Wyddfa, yn gerddwyr ac yn ddefnyddwyr y rheilffordd ill dau.

2. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

3. **Datgan Budd**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o Fuddiannau Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

4. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 11eg Rhagfyr 2019 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

5. **Materion Er Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

<u>Eitem 1 (9) – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd</u>
Mewn ymateb i sylw gan Aelod, atogoffwyd yr aelodau unwaith eto, lle bo'n bosibl, i godi unrhyw bryderon neu gwestiynau yn ymwneud â gwybodaeth ffeithiol ym mhapuraru'r Pwyllgor neu'r cofnodion, yn uniongyrchol gyda'r swyddog priodol cyn y cyfarfod, yn hytrach nag yn ystod y cyfarfod ei hun.

<u>Eitem 8 - Cyllideb Refeniw Sylfaenol</u>
Er gwybodaeth, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid mai'r grant drafft y cyfeirir ato yn yr 2il baragraff oedd grant dangosol Llywodraeth Cymru.

6. **Cofnod Gweithredu**

Cyflwynwyd - Cofnod o gamau strategol sy'n codi o benderfyniadau a gymerwyd yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

<u>Cyfarfod yr Awdurdod 25.04.18</u>
<u>Eitem Weithredu 6 - Adroddiad Gwelliant Blynyddol 2017/18</u>
- <u>Gwella'r profiad ar-lein i ymwelwyr a'r cyhoedd</u> – dywedodd Aelod fod gwefan yr Awdurdod yn cynnwys gwybodaeth am Harlech nad oedd bellach yn gyfredol ac y dylid ei diweddaru. Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i drefnu bod hyn yn cael ei gywiro yn ddi-oed.
-

<u>Cyfarfod yr Awdurdod 04.07.18</u>
<u>Eitem Weithredu 3 - Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Life +</u>
Roedd y weithred hon bellach wedi'i chwblhau a gellid ei thynnu oddi ar y Cofnod Gweithredu.

**PENDERFYNWYD nodi'r Cofnod Gweithredu a chael gwared ar y camau gweithredu fel yr amlinellwyd.**

7. **Swyddfa Archwilio Cymru - Llythyr Archwilio Blynyddol 2018/19**
Cyflwynwyd - Llythyr Archwilio Blynyddol 2018/19, er gwybodaeth.

Adroddwyd - Cyflwynwyd y Llythyr Archwilio Blynyddol ar ran Swyddfa Archwilio Cymru.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y Llythyr Archwilio Blynyddol 2018/19.**

8. **Archwiliad o Asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o Berfformiad 2018-19**
Cyflwynwyd - Archwiliad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o berfformiad 2018-19, er gwybodaeth.

Adroddwyd - Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru yn mynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 25 Mawrth 2020 i gyflwyno eu hadroddiad manwl.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

9. **Cyllideb ac Ardoll yr Awdurdod ar Awdurdodau Cyfansoddol 2020/2021**
Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn gofyn am gymeradwyaeth i gyllidebau refeniw a chyfalaf 2020/21 ac awdurdod i godi ardollau ar awdurdodau cyfansoddol yn seiliedig ar grant dangosol Llywodraeth Cymru.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid ei adroddiad a chynghorodd fod y ffigurau'n seiliedig ar ffigur y grant ar gyfer 2019/20 gan fod Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol yn dal i aros am gadarnhad ffurfiol am eu setliad grant ar gyfer 2020/21. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, yng nghyd-destun cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, ei bod yn ymddangos bod y Parciau Cenedlaethol o dan anfantais. Cadarnhaodd y bydd y cyllid refeniw craidd ar gyfer yr Awdurdodau Unedol yn cynyddu 4.3% yn 2020-21, tra bydd Heddlu Gogledd Orllewin Cymru yn gweld cynnydd o 4.5% yn eu presept, a bydd ardollau ar gyfer Awdurdod Tân Gogledd Orllewin a Chyfoeth Naturiol Cymru yn elwa o o leiaf 2% o gynnydd chwyddiant.

Cadarnhaodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr y byddent yn codi'r mater hwn gyda'r Dirprwy Weinidog yn eu cyfarfod yr wythnos ganlynol. Roedd yr aelodau'n teimlo'n gryf bod gan y Parciau Cenedlaethol ran i'w chwarae mewn rheoli carbon, newid yn yr hinsawdd, twristiaeth gynaliadwy a hefyd o fudd i iechyd a lles y genedl ac y dylid eu cefnogi'n well trwy gyllid craidd.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi cynnwys yr adroddiad.**
2. **cymeradwyo cyllidebau refeniw a chyfalaf 2020/21.**
3. **awdurdodi codi ardollau ar y ddau gyngor cyfansoddol i gyfanswm o £1,248,420 yn unol â pharagraff 6.3 o adroddiad y Prif Swyddog Cyllid.**

10. **Strategaeth Gyfalaf 2020/21**
Cyflwynwyd - Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid i gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2020/21 a'r argymhellion sy'n ymwneud â'r Cod Darbodus.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad a rhoddodd fanylion pellach am y Strategaethau Benthyca a Buddsoddi. Dywedodd hefyd,

ers paratoi'r adroddiad, bod statws credyd Banc Barclays wedi'i gadarnhau. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid ymhellach fod yr asesiad 3 blynedd o'r gronfa bensiwn wedi dod i'r casgliad nad oedd gan yr Awdurdod ddiffyg pensiwn mwyach a bod gwarged ar y gronfa bellach.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi nad oedd unrhyw fwriad i fenthyg arian at ddibenion cyfalaf, ond argymhellwyd y cyfyngiadau isod ar lefel ddarbodus fel mesur rhagofalus rhag ofn y byddai argyfwng neu angen gwariant ar fyr rybudd.**
2. **cymeradwyo'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig presennol o £500,000 ar gyfer 2020/21, a Ffin Weithredol o £100,000.**
3. **na ddylid gosod terfyn ar gyfran y llog sy'n daladwy ar gyfradd amrywiol.**
4. **mabwysiadu'r Strategaeth Benthyca Cyfalaf ar gyfer 2020/21 fel yr amlinellir ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad, a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud â'r Cod Darbodus (gweler y tablau o dan baragraffau 2.2, 3.3 a pharagraff 7.1 o'r adroddiad).**
5. **mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2020/21 fel yr amlinellir ym mhara. 3.5 i 3.14 o'r adroddiad, a nodi'r sefydliadau a restrir ym mhara 3.7.**

11. **Cynllun Ariannol Canol Tymor (CATC)2019/20 – 2022/23**

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid, er gwybodaeth. Dosbarthwyd adroddiad diwygiedig i'r Aelodau yn y cyfarfod a gofynnwyd i'r Aelodau nodi cywiriad yn adroddiad Cymru (para. 5.3) a ddylai gyfeirio at y flwyddyn 2021/22 yn y paragraff olaf.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a dywedodd fod y CATC yn ddogfen waith a fyddai'n caniatáu i'r Aelodau gydnabod tueddiadau. Cadarnhaodd y byddai'r Aelodau'n gallu adolygu'r egwyddorion gweithredu (para. 5.2 o'r adroddiad) pan fyddant yn mabwysiadu Cynllun Corfforaethol newydd. Nododd yr aelodau, o dan bara. 5.4, y bydd y gallu hwnnw i gyflawni prosiectau a ariennir gan grant cyfalaf yn dod yn fwy a mwy pwysig yn y dyfodol oherwydd fe fydd angen i'r Awdurdod symud yn gyflym wrth i gynigion cronfa grant gael eu gwneud ar fyr rybudd iawn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Ariannol Canol Tymor fel dogfen waith.**

12. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i roi diweddariad i'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r gofrestr risg ac fe ystyriodd yr Aelodau hon yn fanwl.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd swyddogion :-

- <u>Cyf risg 3</u> - arhosodd y Targed Cynhyrchu Incwm (Maes Parcio) ar y gofrestr oherwydd maint yr incwm a'r effaith y gallai ei gael ar y gyllideb pe bai'n methu â chyflawni ei tharged. Cafodd y risgiau eu monitro'n agos gan y Pennaeth Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli.
- <u>Cyf risg 6</u> – roedd yr Awdurdod yn parhau i weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i weithredu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol (Cymru). Roedd y cynllun peilot yn ei 2il flwyddyn ac roedd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru yn mynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i gyflwyno eu hadroddiad.

- Cyf risg 13 - dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn gweithio ar fesurau i fynd i'r afael â chydnerthedd staff a chroesawodd yr Aelodau sefydlu'r 'grŵp iechyd a lles staff'.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo Proffil Risg yr Awdurdod, fel y'i cyflwynwyd.**

13. **CLILC (W.L.G.A.) Seminar y Gwanwyn a Chinio Seminar 2020 Dydd Gwener 1af Mai - Stadiwm Liberty, Abertawe**
Cyflwynwyd - Dyddiad ar gyfer y dyddiadur, er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r** dyddiad ar gyfer y dyddiadur**.**

14. **Adroddiad y Gweithgor**
Cyflwynwyd - Adroddiad cyfarfod Gweithgor yr Aelodau a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r adroddiad.**
2. **cymeradwyo mabwysiadu'r Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg yn ffurfiol, fel rhan o broses recriwtio'r Awdurdod, am gyfnod prawf o 12 mis.**

15. **Cyfarfodydd Sefydliadau eraill**
**Cyflwynwyd -** Adroddiadau llafar ar gyfarfodydd diweddar sefydliadau yr oedd Aelodau wedi'u mynychu fel cynrychiolwyr yr Awdurdod**.**

Cyng Alwyn Gruffydd
- Fforwm Strategol Rhaglen Ynys Ynni
roedd cyfarfod mis Ionawr wedi'i ganslo i aros am ryddhau'r papur gwyn ar ynni.

Mr. Owain Wyn
Fforwm Gwledig Cymru
- roedd trafodaethau wedi canolbwyntio ar y fformiwla ariannu ar gyfer awdurdodau lleol yng nghefn gwlad Cymru a strategaeth ar gyfer ardaloedd gwledig.

Tim Lloyd, Cyfarwyddwr – Digwyddiadau Anelu'n Uchel / Always Aim High Events
- roedd trafodaethau wedi canolbwyntio ar effaith amgylcheddol digwyddiadau chwaraeon ar y Parc Cenedlaethol, ac yn enwedig ar yr Wyddfa.

Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- trafodwyd y symudiad oddi wrth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
- trafod y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CbCau) sy'n ymddangos yn gyfyngedig o ran aelodaeth i brif Gynghorau ac yn eithrio Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

**PENDERFYNWYD diolch i'r Aelodau a nodi'r adroddiadau.**

16. **Cofnodion**

Cyflwynwyd - Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 20fed Tachwedd 2019, er gwybodaeth.

Yn codi ar hynny,
7. Cynllun Corfforaethol – Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn dal i aros am adroddiad yr 'hwyluswyr allanol' ac felly bydd yn rhaid gohirio ystyriaeth bellach gan aelodau tan gyfarfod mis Ebrill y Gweithgor Aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.15**

**EITEM RHIF 4**

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynllun Archwilio 2020 – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1814A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynllun Archwilio 2020 | |
| Ein dyletswyddau | 4 |
| Effaith COVID-19 | 4 |
| Archwilio'r datganiadau ariannol | 5 |
| Archwilio perfformiad | 8 |
| Ffi, tîm archwilio ac amserlen | 9 |
| Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 | 12 |
| Atodiadau | |
| Atodiad A – Gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 | 13 |
| Atodiad B – Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – hysbysiad awgrymedig | 14 |

# Cynllun Archwilio 2020

## Ein dyletswyddau

1 Rydym yn cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol.

### Archwilio'r datganiadau ariannol

2 Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Yr Awdurdod) i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

### Gwerth am arian

3 Rhaid i'r Awdurdod sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i ninnau fod wedi'n hargyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

### Gwella'n barhaus

4 Rhaid i'r Awdurdod hefyd sefydlu trefniadau i wneud gwelliannau parhaus ac rydym hefyd yn gwirio a yw wedi gwneud hyn.

### Yr egwyddor datblygu cynaliadwy

5 Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr, wrth wneud penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. Rhaid i ni asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

### Effaith COVID-19

6 Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar yr DU a bydd yn effeithio'n sylweddol ar baratoi cyfrifon 2019-20 ac ar ein gwaith archwilio, o ran archwilio ariannol ac archwilio perfformiad.

7 Yn sgîl cyfyngiadau Llywodraeth y DU ar symudiadau a lefelau absenoldeb oherwydd salwch a ddisgwylir, rydym yn deall na fydd nifer o awdurdodau'n gallu paratoi cyfrifon yn unol â'r amserlen a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Yn ogystal â chyflawni cyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol, ein blaenoriaeth yw sicrhau iechyd, diogelwch a lles ein staff, eu teuluoedd a'n partneriaid mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth cyhoeddus ar yr adeg hynod heriol hon.

8 Mewn ymateb i gyngor y Llywodraeth a chyfyngiadau dilynol, rydym wedi rhoi'r gorau i'n holl waith ar safleoedd cyrff a archwilir ac yn ein swyddfeydd ni ein hunain. Mae ein staff yn gweithio gartref a byddwn yn parhau i wneud pa bynnag gynnydd y gallwn ei wneud wrth weithio ac ymgysylltu â chi o bell.

9 ganlyniad, nid yw'r cynllun archwilio hwn yn cynnwys unrhyw fanylion mewn perthynas â chwblhau ein gwaith archwilio. Byddwn yn trafod amserlen gyda'r Awdurdod unwaith y bydd yr argyfwng cenedlaethol presennol drosodd ac y bydd yr Awdurdod mewn sefyllfa i baratoi ei gyfrifon.

10 Rydym yn ymrwymo i sicrhau na fydd ein gwaith archwilio'n cael effaith niweidiol arnoch ar adeg pan fo cyrff cyhoeddus dan bwysau ac yn canolbwyntio ar faterion pwysicach.

# Archwilio'r datganiadau ariannol

## Fy nghyfrifoldebau

11 Fy nghyfrifoldeb yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ynglŷn â'u 'cywirdeb a thegwch':

- rydym yn bwriadu rhoi barn ynglŷn â datganiadau ariannol yr Awdurdod erbyn 31 Gorffennaf 2020.
- asesu pa un a gafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Rydym hefyd yn adolygu pa un a ydynt yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac â'n gwybodaeth ni am yr Awdurdod.

12 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, mae gennym hefyd gyfrifoldeb am:

- ystyried gofynion ffurflen yr Awdurdod ar gyfer Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan a gyflwynir i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth i roi cymorth i baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.
- ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynglŷn â'r cyfrifon gan etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os oes angen).

13 Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn. Os gosodwyd cyfyngiadau, dylid datgan y rhain yma neu mewn man priodol yng nghorff y ddogfen.

14 Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar ein gwefan (www.archwilio.cymru).

## Risgiau Archwilio yn y Datganiadau Ariannol

15 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau arwyddocaol yr wyf wedi'u hadnabod ar gyfer yr archwiliad o'r Awdurdod.

**Arddangosyn 1: risgiau archwilio yn y datganiadau ariannol**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau archwilio allweddol yn y datganiadau ariannol a adnabuwyd adeg cynllunio'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
| --- | --- |
| **Risgiau arwyddocaol** | |
| Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a hefyd<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes. |
| **Meysydd eraill a fydd yn cael sylw wrth archwilio** | |
| **Effaith COVID-19 – risgiau cyffredinol**<br>Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr Awdurdod a'i broses cynhyrchu cyfrifon. Mae risgiau posibl yn cynnwys:<br>• Digwyddiadau dilynol. Mae'r Awdurdod yn wynebu risg ar hyn o bryd na fydd yn paratoi ei gyfrifon yn unol â'r amserlen a nodir gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae newid terfynau amser ar gyfer adroddiadau'n cynyddu'r cyfnod (ac felly'r risgiau cysylltiedig) ar gyfer digwyddiadau rhwng dyddiad y datganiadau ariannol a dyddiad adroddiad yr archwilydd. Bydd canlyniadau'r | Bydd fy nhîm archwilio'n cymryd y camau canlynol i sicrhau yr eir i'r afael yn ddigonol â'r risgiau sy'n codi o ganlyniad i COVID-19:<br>• byddwn yn estyn cyfnod adolygu digwyddiadau dilynol er mwyn canfod unrhyw ddigwyddiadau dilynol perthnasol sy'n gysylltiedig â COVID-19, a pha un a yw'r rhain wedi cael sylw priodol neu wedi cael eu datgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol;<br>• byddwn yn ystyried a oes meysydd y gall fod angen eu rheoli i ddarparu tystiolaeth bellach oherwydd natur y |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| feirws ar ôl 31 Mawrth 2020 ar y cyfan yn ddigwyddiadau ar ôl y fantolen na wneir addasiadau ar eu cyfer, ond gall fod angen rhyw fath o ddatgeliad.<br>• Defnyddio amcangyfrifon. Gall yr ansicrwydd a'r oedi a achosir gan y cyfyngiadau ar symud ledled y DU olygu nad yw'r data ei hun ar gael ac y gwneir mwy o ddefnydd o amcangyfrifon wrth baratoi'r cyfrifon. | mater hwn sy'n golygu bod y sefyllfa'n newid yn gyflym;<br>• byddwn yn trafod y tybiaethau a seiliau tystiolaeth allweddol sy'n tanategu amcangyfrifon gyda chi a byddwn yn gwneud hyn ar adeg gynnar; a<br>• byddwn yn mabwysiadu mwy o ffocws ar y meysydd canlynol:<br>– y broses o gau'r datganiad ariannol (yn arbennig cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wneir); a<br>– gwerthusiad yr archwilydd o'r modd y cyflwynwyd y datganiadau ariannol ar y cyfan, gan gynnwys ystyried a wnaed datgeliadau digonol. |
| **Amcangyfrifon sylweddol**<br>Bydd paratoi'r datganiad ariannol yn golygu nifer o amcangyfrifon sylweddol, megis buddion cyflogeion dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu'r asesiad blynyddol a wnaed gan swyddogion o'r sail i lunio amcangyfrifon a'u diwygio yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf;<br>• gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr arbenigwyr a gafodd orchwyl gan y Cyngor i ddarparu'r amcangyfrifon a gwerthuso'r gwaith a wnaed gan yr arbenigwyr; ac<br>• adolygu dogfennaeth arall a ddelir i ategu amcangyfrifon ac asesu priodoldeb dyfarniadau'r Awdurdod wrth bennu'r amcangyfrifon. |
| Dyfarniad McCloud<br>Yn 2015 cyflwynodd y Llywodraeth ddiwygiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus, gan olygu bod y rhan fwyaf o weithwyr y sector cyhoeddus wedi'u symud i gynlluniau pensiwn newydd yn 2015. | Bydd fy nhîm yn archwilio'r ddarpariaeth a wnaed mewn perthynas â dyfarniad McCloud ac yn monitro cynnydd o ran datblygu cynigion ar gyfer rhwymedi i'w gymhwyso yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
| --- | --- |
| Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'mesurau diogelu dros dro' a gynigiwyd i rai aelodau o'r cynlluniau barnwyr a diffoddwyr tân, fel rhan o'r diwygiadau, yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019 cyhoeddodd y Llywodraeth eu bod yn derbyn bod y dyfarniad yn gymwys i holl brif gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus.<br>Mae effaith y dyfarniad yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar y rhwymedigaethau a ddatgelir dan IFRS19. | |
| Mae'r broses o gyflwyno IFRS 16 Prydlesi wedi cael ei gohirio tan 2021-22. Mae angen peth wmbredd o waith i adnabod prydlesi a gallai argyfwng cenedlaethol COVID-19 greu rigiau o ran rhoi'r safon ar waith. | Bydd fy nhîm yn gwneud peth gwaith cynnar i adolygu parodrwydd ar gyfer cyflwyno IFRS 16 Prydlesi. |

16 Byddwch yn ymwybodol bod Bwrdd Cod CIPFA/LASAAC wedi rhoi ystyriaeth yn ddiweddar i ddiweddariad arfaethedig i God 2019-20 a fyddai wedi anghymhwyso rhannau mawr o God Ymarfer 2019-20 ar Gyfrifyddu gan Awdurdodau Lleol (y Cod). Ar ôl trafod, fe benderfynodd Bwrdd Cod CIPFA/LASAAC beidio â mabwysiadu'r diweddariad arfaethedig i'r Cod. Felly, bydd Cod 2019-20 yn cael ei gymhwyso'n llawn ar gyfer eleni. Rydym yn deall bod yr Awdurdod yn gweithio tuag at baratoi cyfrifon yn unol â'r Cod llawn.

17 Er gwybodaeth, mae cyflwyno IFRS 16 Prydlesi wedi cael ei ohirio tan 2021-22 oherwydd COVID-19. Mae peth wmbredd o waith yn ofynnol i adnabod prydlesi a gallai argyfwng cenedlaethol COVID-19 greu risgiau i roi'r safon ar waith. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod mewn perthynas â'i barodrwydd.

## Archwilio perfformiad

18 Yn ogystal â'n Harchwiliad o'r Datganiadau Ariannol rydym hefyd yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol a nodir ar **dudalen 4** mewn perthynas â gwerth am arian, gwella'n barhaus a datblygu cynaliadwy. Ar gyfer 2020-21, caiff y gwaith hwn ei nodi isod.

**Arddangosyn 2: Rhaglen Archwilio Perfformiad 2020-21**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2020-21

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
| --- | --- |
| Gwaith archwilio ac asesu trefniadau gwella gan gynnwys archwiliad o gynllunio ar gyfer gwella ac adrodd ar wella | Archwilio'r modd y cyflawnwyd y ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella, ac i gyhoeddi asesiad o berfformiad. |
| Cydnerthedd gwasanaethau | Gan adeiladu ar ein gwaith adolygu diweddaraf byddwn yn cynnal asesiad o gydnerthedd a chynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y tri Pharc Cenedlaethol |

19 Ar 18 Mawrth 2020, fe ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at y Prif Weithredwr i egluro, yn dilyn arweiniad gan y Llywodraeth, ei fod wedi penderfynu atal yr holl waith archwilio perfformiad ar safleoedd ar unwaith. Byddwn yn gwneud cymaint o gynnydd â phosibl gyda'r gweithgareddau hyn trwy weithio o bell, os yw'n briodol. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd yr achos o COVID-19 yn cael effaith ar gyflawni ein rhaglen o waith archwilio. Rydym yn adolygu hyn yn barhaus a byddwn yn cyfleu rhagor o wybodaeth am y rhaglen waith uchod (gan gynnwys amseriadau a'r allbynnau tebygol) pan fyddwn yn gwybod mwy am hyd y cyfyngiadau COVID-19 ac effaith ehangach yr achos ar y sector.

## Ffi, tîm archwilio ac amserlen

20 Mae fy ffioedd ac amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen y bwriedir cytuno arni wedi i argyfwng cenedlaethol COVID-19 ddod i ben, i'r ansawdd disgwyliedig ac maent wedi bod trwy adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
- mae gwybodaeth a ddarparwyd i ategu'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen canlyniadau archwilio cytunedig;
- darperir ystafell a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;

- rydych wedi rhoi'r holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i'w gwneud yn bosibl i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ddarparu pob sicrwydd y mae ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf;
- mae rhaglen waith arfaethedig y tîm Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol; a
- nodi i ba raddau yr ydych yn bwriadu dibynnu ar waith y tîm Archwilio Mewnol a lle bwriedir dibynnu ar waith archwilwyr eraill, arbenigwyr a.y.b.

21 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

## Ffi

22 Caiff eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2020 ei nodi yn Arddangosyn 3. Bu rhai newidiadau bach i strwythur cyfraddau fy ffioedd ar gyfer 2019; fodd bynnag, bydd fy nhimau archwilio'n parhau i lywio effeithlonrwydd yn eu harchwiliadau i sicrhau nad yw unrhyw godiadau o ganlyniad yn cael eu trosglwyddo i chi.

**Arddangosyn 3: ffi archwilio**

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2020, yn ôl maes archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| Archwilio'r cyfrifon[2] | 27,500 | 27,500 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | 17,084 | 17,084 |
| Cyfanswm y ffi | 44,584 | 44,584 |

23 Bydd cynllunio'n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio ac felly fy ffi yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod gyda'r Awdurdod yn gyntaf.

24 Ceir rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a'r modd y caiff ffioedd eu pennu ar ein gwefan.

[1] Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch

[2] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Hydref 2020.

[3] Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021

## Tîm archwilio

25 Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: fy nhîm archwilio**

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320651 | derwyn.owen@archwilio.cymru |
| Matthew Edwards | Rheolwr Archwilio Ariannol | 02920 320663 | matthew.edwards@archwilio.cymru |
| Alan Hughes | Arweinydd Archwilio Ariannol | 07791 411985 | alan.hughes@archwilio.cymru |
| Nick Selwyn | Rheolwr Archwilio Perfformiad | 02920 320612 | nick.selwyn@archwilio.cymru |
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320651 | derwyn.owen@archwilio.cymru |

## Amserlen

26 Byddwn yn parhau i wneud cymaint o waith ag y gellir ei wneud o bell yn ystod argyfwng cenedlaethol COVID-19. Fodd bynnag, fel a nodir uchod, ni fyddwn mewn sefyllfa i gytuno ar amserlen gyda chi nes bod argyfwng cenedlaethol COVID-19 drosodd.

27 Bydd angen i ni drafod unrhyw newidiadau i'r amserlenni ar gyfer cynhyrchu ac archwilio'r cyfrifon gyda chi ond byddwn yn parhau i weithio mor hyblyg ag y gallwn ac rydym yn gefnogol i 'estyn' y ffenestr gyfrifon lle y bo angen. Bydd yn hanfodol bod yr ymgysylltu agos hwn yn parhau dros y misoedd nesaf, yn erbyn cefnlen a fydd yn newid yn gyflym, heb os.

28 Felly, byddwn yn adrodd ar amserlen ar gyfer ein gwaith archwilio maes o law.

29 Gallaf gadarnhau bod holl aelodau fy nhîm yn annibynnol ar yr Awdurdod a'ch swyddogion. Hefyd, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi ei ddwyn i'ch sylw.

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

30 Mewn perthynas â'n gwaith cyfrifon, rydym yn ymwybodol y gall fod anawsterau o ran cydymffurfio â'r dyddiadau paratoi a chyhoeddi cyfrifon a bennwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi na fydd y Rheoliadau'n cael eu diwygio gan eu bod eisoes yn darparu hyblygrwydd digonol i ymdrin ag unrhyw oedi sy'n deillio o COVID-19.

31 Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi hysbysiad lle nad yw'r awdurdod yn disgwyl cydymffurfio â'r dyddiadau a bennir gan y Rheoliadau. Rwyf wedi cynnwys manylion pellach yn Atodiad A a hysbysiadau enghreifftiol yn Atodiad B y bydd yr Awdurdod yn dymuno ystyried eu defnyddio o bosibl.

32 Mae'r gofynion o ran arfer hawliau etholwyr dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn dal i fod yn berthnasol. Mae hyn yn creu rhai anawsterau ymarferol tra bo'r cyfyngiadau ar symud yn dal i fod yn berthnasol e.e. mynediad cyhoeddus at gofnodion cyfrifyddu'r awdurdod.

33 Felly, bydd fy nhîm archwilio'n trafod amserlen briodol gyda chi ar gyfer archwilio gan y cyhoedd pan fydd gennym syniad clir o'r dyddiad pan fydd y cyfrifon ar gael a phan fydd y cyfyngiadau ar symud wedi cael eu llacio'n ddigonol.

34 Bydd y tîm archwilio'n cyhoeddi hysbysiad archwilio maes o law a fydd yn nodi'r dyddiad penodedig.

35 Gall hyn olygu y bydd oedi cyn ein bod yn gallu cyhoeddi ein barn archwilio.

# Atodiad A

## Gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

Yn Lloegr, efallai y byddwch yn ymwybodol bod yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol Robert Jenrick AS wedi cyhoeddi y bydd y dyddiad terfyn ar gyfer paratoi cyfrifon llywodraeth leol yn cael ei estyn i 31 Awst 2020 a'r dyddiad terfyn ar gyfer cyhoeddi cyfrifon archwiliedig yn cael ei estyn i 30 Tachwedd.

Trafododd Archwilio Cymru y datblygiad hwn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ganfod a fydd cyhoeddiad tebyg yn cael ei wneud ar gyfer Cymru. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru (a gyflëwyd i gyrff llywodraeth leol) fel a nodir isod ar hyn o bryd.

### Gofynion statudol

Caiff y sefyllfa statudol ar gyfer cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ei nodi yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd).

### Dehongliad Llywodraeth Cymru

Mae Rheoliad 10 yn nodi'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer paratoi, cymeradwyo ac archwilio'r cyfrifon blynyddol. Oherwydd effaith COVID-19, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod efallai na fydd yn bosibl i bob corff llywodraeth leol gydymffurfio â'r amserlen hon. Mae Rheoliad 10(4) yn rhoi digon o hyblygrwydd i gyrff llywodraeth leol ymdrin ag oedi a achosir gan COVID-19. Mae ei chanllawiau ar y Rheoliadau'n nodi fel a ganlyn:

> 'Mewn achosion eithriadol, lle na ellir ardystio cyn [31 Mai], mae angen gweithredu i gyhoeddi datganiad sy'n nodi'n glir y rhesymau pam nad yw hyn wedi digwydd cyn y dyddiad hwnnw a chytuno ar ddull gweithredu i sicrhau y gwneir hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl [31 Mai].'

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai'r cyfrifon gael eu cyhoeddi erbyn [31 Gorffennaf] hyd yn oed os nad yw'r cyfrifon wedi cael eu cymeradwyo.

Ar y sail bod digon o hyblygrwydd wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau cyfredol, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen diwygio'r Rheoliadau.

### Barn Archwilio Cymru a'r effaith ar y broses archwilio

Mae Archwilio Cymru yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod digon o hyblygrwydd eisoes yn bodoli yn y Rheoliadau.

Os na fydd y cyfrifon yn cael eu paratoi erbyn yr amserlen statudol, dylai cyrff a archwilir hysbysu eu tîm archwilio a chyhoeddi hysbysiad sy'n nodi bod oedi'n mynd i fod a'r rheswm dros yr oedi. Darperir geiriad enghreifftiol yn **Atodiad B**.

# Atodiad B

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – hysbysiad awgrymedig

### Hysbysiad archwilio lle nad yw'r Swyddog Cyllid Cyfrifol yn gallu ardystio'r cyfrifon naill ai oherwydd afiechyd neu am nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi

Mae Rheoliad 10(1) yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol bod Swyddog Cyllid Cyfrifol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn llofnodi'r datganiad cyfrifon ac yn rhoi dyddiad arno, ac yn ardystio'i fod yn cyfleu darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y corff hwnnw am y flwyddyn honno. Yn ôl y Rheoliadau roedd yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 31 Mai 2020.

Nid yw'r Swyddog Cyllid Cyfrifol wedi llofnodi ac ardystio'r cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. O ganlyniad i'r achos o COVID-19, mae'r awdurdod wedi dargyfeirio adnoddau i gefnogi gwasanaethau rheng-flaen allweddol ac nid yw'r datganiad cyfrifon wedi cael ei baratoi eto. Bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi, a bydd y Swyddog Cyllid Cyfrifol yn llofnodi ac yn ardystio'r datganiad cyfrifon, pan fydd pwysau uniongyrchol yr achos o COVID-19 wedi cilio.

### Hysbysiad archwilio lle mae'r Swyddog Cyllid Cyfrifol wedi ardystio'r cyfrifon ond bod y corff a archwilir ddim yn cwrdd a'i fod felly'n methu â chymeradwyo'r cyfrifon

Mae Rheoliad 10(1) yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol bod Swyddog Cyllid Cyfrifol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn llofnodi'r datganiad cyfrifon ac yn rhoi dyddiad arno, ac yn ardystio'i fod yn cyfleu darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y corff hwnnw am y flwyddyn honno. Yn ôl y Rheoliadau roedd yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 31 Mai 2020.

[Fe wnaeth y Swyddog Cyllid Cyfrifol lofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar [dyddiad]].

Mae Rheoliad 10(2) yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, ar ôl yr ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol y cyfeirir ato uchod, bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r datganiad cyfrifon archwiliedig. Yn ôl y Rheoliadau roedd yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 31 Gorffennaf 2020.

[O ganlyniad i'r achos o COVID-19, nid yw'r datganiad cyfrifon wedi cael ei baratoi eto.]

NEU

[O ganlyniad i'r achos o COVID-19, nid yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi gallu cwrdd i gymeradwyo'r datganiad cyfrifon.]

NEU

[O ganlyniad i'r achos o COVID-19, nid yw'r archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2019-20 wedi cael ei gwblhau eto ac nid oes barn archwilio wedi cael ei darparu. Y datganiad cyfrifon anarchwiliedig yw'r datganiad cyfrifon a gyhoeddir.]

Archwilio Cymru
Audit Wales


Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn-destun: 029 2032 0660

E-mail: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru


We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

**EITEM RHIF 6**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 3 Mehefin, 2020 |
| **TEITL** | **CYNLLUN CORFFORAETHOL 2020/21** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol drafft |

## 1. CEFNDIR

1.1 Fel y bydd yr aelodau'n gwybod, daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016.

1.2 Mae'r Ddeddf yn nodi 7 Nod Llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

1.3 Rhy'r Ddeddf ddyletswydd graidd ar yr Awdurdod i osod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u bwriadu i wneud y gorau o'n cyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i'r Awdurdod gymryd pob cam rhesymol i fodloni'r amcanion llesiant hynny, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

1.4 Fel y gwelir yn y Cynllun Corfforaethol rydym yn credu bod datblygu cynaliadwy wedi'i wreiddio yn ethos yr Awdurdod drwy ei weledigaeth a bod amcanion presennol yr Awdurdod oll yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth honno.

1.5 Er bod newidiadau posibl o'n blaenau, ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig i ofynion mesur Llywodraeth Leol (Cymru) ac felly mae'n ofynnol i ni nodi ein trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth ymarfer ein swyddogaethau a sicrhau bod ein hamcanion gwella yn cael eu cyflawni.

1.6 Felly mae Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 yn diwallu gofynion Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru).

1.7 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys Amcanion Llesiant yr Awdurdod a chafodd eu mabwysiadu gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 25ain o Ebrill 2018, ac sy'n mabwysiadu rhagolygon mwy hir dymor o'u cymharu ag Amcanion Gwelliant blaenorol. Mae hyn, wrth gwrs, yn adlewyrchu'r ethos sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Roedd yr Amcanion hyn yn destun ymgynghoriad helaeth ar y pryd, gyda'r manylion llawn wedi'u nodi yn Adran 5 o'r Cynllun Corfforaethol amgaeedig.

1.8 Yn y cyfamser mae'r pandemig Cofid-19 wedi cael effaith ar lif gwaith yr Awdurdod ac mae'r Rhaglen Gorfforaethol wedi cael ei ddiwygio i ystyried a chynnwys camau y bydd swyddogion yn cymryd er mwyn ymateb i oblygiadau Cofid-19 a'r effaith ar waith yr Awdurdod.

## 2. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Mae'r Cynllun yn nodi blaenoriaethau'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn nesaf ac felly'n effeithio ar sut y bydd yr Awdurdod yn gwario ei gyllideb.

## 3. ARGYMHELLIAD


**Bod y pwyllgor yn mabwysiadu y Cynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2020/21.**

## PAPURAU CEFNDIR

**Cynllun Corfforaethol Drafft 2020/21.**

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
# CYNLLUN CORFFORAETHOL

# 2020/21




Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Corfforaethol, yr asesiadau a nodir o'i fewn, a'r rhagdybiaethau a'r rhagamcanion y maent yn seiliedig arnynt. Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am sefydlu systemau rheoli mewnol a rheoli perfformiad priodol er mwyn cael yr wybodaeth a'r asesiadau sydd yn y Cynllun. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr wybodaeth a'r asesiadau yn y cynllun yn hanfodol gywir a chyflawn a bod y cynllun yn realistig

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

☎01766 770274 🖹 01766 771211 parc@eryri-npa.gov.uk

# TUDALEN CYNNWYS


| Rhan | | Tudalen(nau) |
|---|---|---|
| 1. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 1 |
| 2. | Gweledigaeth | 1 |
| 3. | Blaenoriaethau Gwasanaeth | 1 - 3 |
| 4. | Amcanion Llesiant a’r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy | 3 - 6 |
| 5. | Amcanion yr Awdurdod | 6 - 12 |
| 6. | Gwariant Gros ar y 7 Nod Llesiant | 13 |
| 7. | Dangosyddion Perfformiad | 14 - 18 |
| 8. | Fframwaith Cynllunio Corfforaethol | 19 |
| 9. | Yr Edau Aur | 20 |
| 10. | Manylion Cyswllt | 21 |

# 1. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Eryri ym 1951 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Sefydlwyd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel awdurdod lleol un pwrpas. Mae ganddo'r pwrpasau a ganlyn yn ôl diffiniad y Ddeddf:

- Gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, y bywyd gwyllt a'r dreftadaeth ddiwylliannol; a
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc (Cenedlaethol).

Yn ychwanegol at gyflawni Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol, mae'n ddyletswydd ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol.

# 2. Gweledigaeth

Mabwysiadodd yr Awdurdod weledigaeth ar gyfer y Parc ym mis Rhagfyr 2009 yn dilyn ymgynghoriad allanol helaeth â'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid allweddol. Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc (yng Nghynllun Rheolaeth y Parc) fel a ganlyn:

*Erbyn 2035, bydd Eryri'n parhau i fod yn dirlun a warchodir, yn cael ei ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol gyfoethog ac amrywiol; yn rhoi buddiannau cymdeithasol, economaidd a lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.*

*Cyflenwir pwrpasau'r Parc Cenedlaethol trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu i heriau newid yn yr hinsawdd, wedi ei seilio ar adnoddau naturiol – nodweddion y tirlun, cyfleoedd i ddysgu a mwynhau, treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog bywiog a chynhwysol, bydd gweithio mewn partneriaeth wedi dangos y gellir cyflawni mwy trwy undod.*

*Bydd cymunedau wedi mabwysiadu datrysiadau arloesol mewn Byd sy'n newid - bydd economi carbon isel wedi cryfhau cysylltiad y preswylwyr â'r amgylchedd, gan roi gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol sy'n enwog yn rhyngwladol ac un o'r lleoedd i enaid gael llonydd.*

# 3. Blaenoriaethau Gwasanaeth

Wrth baratoi blaenoriaethau ei wasanaethau a'r amcanion llesiant, rhoddodd yr Awdurdod ystyriaeth i ddeddfwriaeth allweddol a datganiadau polisi strategol, cynlluniau perthnasol eraill a barn ei staff, ei aelodau, ei randdeiliaid allweddol ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys:

- Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2016-2021, Symud Cymru Ymlaen
- Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Polisi Adnoddau Naturiol
- Llythyr cylch gwaith a gyhoeddir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru i'r Awdurdod
- Cynllun Rheoli'r Parc
- Adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru ar yr Awdurdod
- Cynlluniau Lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a Chonwy a Sir Ddinbych
- Ymatebion i'r ymgynghoriad a barn rhanddeiliaid.

Mae'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig a'r ffordd rydym yn eu cynnig yn newid, yn bennaf oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ynghyd â'r cyfyngiadau ariannol ar ein cyllideb.

Fodd bynnag, nid yw'r her ariannol sy'n ein hwynebu wedi arwain at ostyngiad yn y galw arnom i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, ac yn y cyd-destun hwn, mae'r Awdurdod wedi pennu beth yw blaenoriaethau ei wasanaethau yn y dyfodol a sut y dylid eu darparu er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddo mewn ffordd gynaliadwy â'r nod o sicrhau gweledigaeth y Parc fel y nodir uchod.

**Mae blaenoriaethau ein gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon fel a ganlyn:**

- sicrhau bod yr amcanion yng Nghynllun Rheolaeth y Parc yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus gennym ni, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn gwella cyflwr y Parc;

- sicrhau bod y swyddogaeth gynllunio statudol yn cael digon o adnoddau ac yn cael ei rheoli'n effeithiol er mwyn cwrdd â pholisïau cenedlaethol, disgwyliadau cwsmeriaid ac yn cefnogi cymunedau cynaliadwy;

- dod o hyd i ffrydiau incwm newydd i gefnogi pwrpasau'r Parc a'r Awdurdod;

- sicrhau ein bod yn ymwneud yn llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn eu cyflawni; a

- dangos manteision Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn lleol ac yn genedlaethol o ran rheoli lle mor arbennig ag Eryri ar gyfer nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- amddiffyn ein staff, preswylwyr, defnyddwyr a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol rhag lledaenu firws Cofid-19 ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol;

- sicrhau bod staff ac aelodau'n cael cefnogaeth ddigonol yn eu trefniadau gweithio mewn cyfnod o'r fath a bod lles staff yn cael ei gefnogi;

- mynd i'r afael â'r anghenion gweithredol a'r pwysau ariannol sy'n deillio o gyfyngiadau a heriau gweithredu mewn amgylchedd heriol a'r mesurau gofynnol wrth ddelio â phandemig Cofid-19;

**Mae'r ffordd y bydd yr Awdurdod yn mynd o gwmpas ei fusnes yr un mor bwysig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ac yn y cyd-destun hwn bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r dull gweithredu a ganlyn:**

- ymgorffori datblygiadau cynaliadwy ymhellach fel egwyddor graidd sy'n arwain ein holl waith;
- trwy weithio gyda'n partneriaid, mabwysiadu rôl alluogi a hwyluso wrth gyflawni ein pwrpasau;
- gwerthuso'n llawn ymrwymiadau ariannol tymor hir ac ymrwymiadau eraill pob prosiect dichonol; a
- gweithio gyda'n cymunedau wrth lwyddo i gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod.

Ar hyn o bryd disgwylir i'r Awdurdod gyhoeddi cynllun gwella sy'n nodi ei drefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau ac i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella.

Ar ben hynny, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod i gyhoeddi Datganiad Llesiant sy'n nodi sut mae ei amcanion llesiant yn cyfrannu at saith nod llesiant Llywodraeth Cymru.

Felly, bydd yr amcanion llesiant y cytunodd yr Awdurdod arnynt hefyd yn amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn nesaf.

# 4. Amcanion Llesiant a'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Ddeddf") yn rhoi pwrpas cyffredin cyfreithiol rwymol, sef y saith nod lles. Y saith nod lles yw fel a ganlyn:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodol eraill, megis yr Awdurdod hwn.

I'r Awdurdod, dyletswydd graidd y Ddeddf (dyletswydd llesiant) yw bod yn rhaid i ni bennu nodau llesiant sy'n macsimeiddio ein cyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant a nodir uchod. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni gymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r nodau llesiant hynny yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy.

Dylai nodau llesiant yr Awdurdod fod yn nodau ar gyfer newid yn y tymor hir. Byddwn yn cwrdd â'n nodau llesiant drwy gyfres o gamau a gall y camau gweithredu hyn fod yn rhai tymor byr, canolig neu hir ar gyfer newid, neu gyfuniad o'r un peth.

Gweler nodau llesiant yr Awdurdod yn Adran 5 y Cynllun Corfforaethol. Maent yn cael eu gosod allan yn y fath fodd ag i ddangos yn glir sut mae pob un ohonynt yn berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant. O dan y nodau llesiant unigol, ceir gyfres o gamau sydd angen eu cyflawni ac

mae'r rhain unwaith eto wedi eu hasesu'n unigol o ran sut y maent yn berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant. Bydd y camau sydd i'w cymryd fel y nodir uchod ac yn Adran 5 yn cael eu cefnogi gan Raglen Waith Gorfforaethol flynyddol fanwl sy'n cael ei hadrodd i'r Awdurdod ac yn cael ei harchwilio ganddo'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Yna gellir mesur cynnydd drwy Ddangosyddion Perfformiad Lleol a fabwysiadwyd i'r diben penodol.
Mae cefnogi'r nodau llesiant yn ddyletswydd gyfochrog y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus ei chyflawni drwy ddatblygu cynaliadwy. Gweler isod fanylion pellach ynghylch yr hyn a olygir gan ddatblygu cynaliadwy.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n nodau llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. Tymor Hir - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.
2. Integreiddio - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.
3. Cynnwys - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. Cydweithio - Gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn (neu'r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. Atal - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

Wedi asesu'r gofynion datblygu cynaliadwy gyda nodau llesiant yr Awdurdod, mae'n ymddangos bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'n nodau llesiant, a cheir manylion pellach isod:

**Tymor hir**

Mae pob un o nodau llesiant yr Awdurdod yn cwmpasu dyheadau tymor hir yr Awdurdod, yn benodol sut y byddwn fel Awdurdod yn cynnal ein busnes yn y dyfodol ac ethos ein ffordd o feddwl. Mae hyn yn cynnwys mwy o gydweithio gyda'n rhanddeiliaid, mwy o ymwybyddiaeth o fanteision iechyd y Parc Cenedlaethol i bobl yn gyffredinol, heriau newid yn yr hinsawdd, grymuso ein cymunedau tra'n cydnabod bod rhaid i'r Awdurdod barhau i weithredu o fewn yr adnoddau ariannol llai sydd ar gael iddo.

**Integreiddio**

Mae rhai o'n nodau llesiant yn cael mwy o effaith ar nodau llesiant unigol nag eraill. Fel rhan o'r broses o fabwysiadu ein nodau llesiant, ystyriodd yr Awdurdod sut maent yn cwrdd â'r nodau llesiant, a nodir y rhain nid yn unig mewn perthynas â phob un o'r nodau llesiant ond hefyd ar gyfer y camau gweithredu tymor byr a thymor canolig penodol sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â'n nodau llesiant. Gweler y rhain yn Adran 5 y Cynllun Corfforaethol.

**Cynnwys**

Mae'r rhan fwyaf o'n nodau llesiant yn cynnwys pobl eraill. Trwy gyfathrebu'n effeithiol ac ehangu dealltwriaeth y cyhoedd o ran nodweddion arbennig Eryri, disgwylir y bydd cyfathrebu o'r fath yn adlewyrchu poblogaeth Cymru. Yn yr un modd, bydd yr adolygiad o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn ddi-os yn denu diddordeb cenedlaethol, ond o brofiad, bydd gweithredu'r Cynllun yn cynnwys mewnbwn mwy lleol. Dylai'r amcan Iechyd a Llesiant apelio at y

boblogaeth leol yn ogystal â'r boblogaeth genedlaethol, a fydd, gyda digon o wybodaeth, yn gallu mwynhau mwy o'r hyn sydd gan y Parc i'w gynnig, tra bod ein nod Ein Cymunedau a Phobl, Lleoedd a Phartneriaid yn bennaf yn cynnwys cymunedau lleol gan ei fod yn canolbwyntio ar rymuso'r cymunedau, partneriaid a gwirfoddolwyr dan sylw. Mae ein nod Adnoddau, er nad yw'n cynnwys pobl eraill yn uniongyrchol, yn sicrhau bod uchelgeisiau tymor hir yr Awdurdod yn parhau i fod yn gyraeddadwy.

**Cydweithio**

Fel Awdurdod Parc cymharol fach, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri bob amser wedi cydnabod y manteision sylweddol a geir drwy gydweithio ag eraill a thrwy weithio mewn partneriaeth barhaus. Erbyn hyn, mae'r ffordd hon o feddwl wedi treiddio i mewn i ffabrig yr Awdurdod a'i staff, ac nid yw'n syndod bod ein holl nodau llesiant yn golygu cydweithio. Bydd pedwar o'r nodau llesiant yn golygu cymysgedd o gydweithio mewnol ac allanol, tra bod gan y nod llesiant arall sy'n troi o amgylch adnoddau'r Awdurdod fwy o ffocws mewnol, i sicrhau bod yr Awdurdod mewn sefyllfa i barhau i wthio am yr hyn sy'n wirioneddol bwysig, trwy reoli ein hadnoddau yn ofalus.

**Atal**

Ni ddylai fod yn syndod bod atal yn elfen ganolog o nodau llesiant yr Awdurdod, o ystyried ein pwrpasau statudol. Trwy gynnwys ein cymunedau ac eraill yng ngwaith yr Awdurdod; trwy gyfathrebu'n effeithiol o ran y cyfleoedd go iawn sydd gan y Parc Cenedlaethol i'w cynnig; drwy sicrhau ein bod yn cynnig amodau ffafriol ar gyfer adfer cynefinoedd; drwy gymryd y camau gweithredu hyn, a rhai eraill, yn awr, gallwn ddechrau ar y broses o addasu i heriau newid yn yr hinsawdd. Mae angen i hyn fod ar y cyd ag ymgyrch gydunol i wella iechyd ein poblogaeth yn awr, er mwyn osgoi dyfodol lle bydd adnoddau'r GIG yn gwbl annigonol i gwrdd ag anghenion ei boblogaeth. Os nad yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n awr i ymdrin â'r materion hyn, mae perygl gwirioneddol y bydd yr heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yn anorchfygol.
Mae nodau llesiant yr Awdurdod a amlinellir isod yn cael eu gosod yn flynyddol trwy'r Cynllun Corfforaethol hwn, heb fod yn hwyrach na diwedd mis Ebrill bob blwyddyn. Bydd cynnydd ar weithredu'r nodau llesiant yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod. Ystyrir adroddiad terfynol gan yr Awdurdod ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben, drwy ystyriaeth o Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod.

Er bod yr amcanion lles yn cael eu gosod yn flynyddol er mwyn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru), maent wedi eu bwriadu fel amcanion tymor hir, ac yn unol â hynny rhagwelir bod yr amcanion lles presennol yn parhau yn destun i adolygiad cyfnodol. Bydd yr adolygiad cyfnodol nesaf ar neu cyn 31ain Mawrth 2021. Bydd yr adolygiad hwn yn sicrhau bod ein hamcanion lles yn bodloni'r 10 thema drawsbynciol a geir yn Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol sydd yn:

- Tirweddau i bawb
- Enghreifftiau o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Atal colli bioamrywiaeth
- Ynni gwyrdd a datgarboneiddio
- Gwireddu potensial economaidd y dirwedd
- Twristiaeth gynyddol a hamdden awyr agored
- Yr iaith Gymraeg yn ffynnu
- Mae pob tirwedd yn bwysig
- Cyflawni trwy gydweithio
- Arloesi wrth ddarparu adnoddau

Penderfynwyd yn flaenorol y dylai'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020/21 gadw amcanion strategol y blynyddoedd blaenorol wrth i Aelodau'r Awdurdod benderfynu gohirio eu hadolygiad

o'r Amcanion Llesiant hyd nes y gellir ymgynghori ymhellach yn 2020 gyda'r diben o gytuno ar Amcanion Lles ar gyfer y cyfnod 2021 i 2026. Mae'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020/21 yn Gynllun pontio ar gyfer diben o'r fath.

Ers i aelodau'r Awdurdod gytuno ar ddull gweithredu o'r fath, mae sefyllfa'r Awdurdod fel pob sector arall wedi newid yn ddramatig oherwydd yr angen i amddiffyn iechyd y cyhoedd rhag pandemig Cofid-19 a'r gofynion o fynd i'r afael â'r bygythiad i gymdeithas. Yn unol â hynny, mae hyn wedi golygu bod angen newid Blaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod a rhai elfennau o'r amcanion llesiant eu hunain ill dau er mwyn galluogi'r Awdurdod i ganolbwyntio ei adnoddau ar y mannau hynny lle mae ei angen fwyaf. Mae'n dilyn bod rhai o'r gweithgareddau yn y Rhaglen Waith hon wedi'u diwygio i adlewyrchu'r mater hwn sy'n esblygu'n gyflym.

# 5. Amcanion yr Awdurdod

Er bod yr amcanion yn cael eu gosod yn flynyddol, fe'u bwriedir fel amcanion tymor canolig i hir ac maent yn gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod a'r 7 nod Llesiant fel y'u nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn 2018-19 cyfunodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ei amcanion gwella yn ei ddatganiad llesiant a'i gynhyrchu fel un ddogfen. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cael ei gefnogi ac yn cael ei archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, cymeradwyodd yr Aelodau ei amcanion Gwella a Lles ar gyfer 2018 - 2023 i'w cynnwys yn ei Gynllun Corfforaethol a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2018.

Nododd a chymeradwyodd yr aelodau bum maes lle dylid datblygu amcanion llesiant a gwella:

- Ein Cymunedau
- Cynlluniau a Pholisïau
- Iechyd a Lles
- Pobl, Lleoedd a Phartneriaid
- Cydbwyso ein hadnoddau a'n hymdrechion

Mae cyhoeddi'r Datganiad "Gwerthfawr a Chydnerth" wedi cadarnhau blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau dynodedig Cymru ac mae'r Aelodau wedi cadarnhau bod angen adolygu amcanion lles a gwella'r Awdurdod i ddarparu ar gyfer blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y tirweddau dynodedig.

Nododd y Cynllun Corfforaethol blaenorol yr angen i weithio mewn partneriaeth â'n BGC (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) perthnasol er mwyn cyflawni rhai o'n amcanion lles. Fodd bynnag, mae'r cynnydd ar ganlyniadau o'r fath wedi bod yn araf ac yn amrywiol ac wrth edrych ymlaen mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod ein hamcanion lles a'n hamcnion gwella a'r Cynllun Corfforaethol yn nodi camau y gellir eu cyflawni trwy ein hymdrechion ein hunain yn hytrach na dibynnu ar bartneriaid, yn enwedig mewn cyfnod lle mae cydweithredu yn mynd i fod yn anodd ar lefel weithredol.

Yn dilyn trafodaeth, argymhellodd yr Aelodau y byddai angen amser i ystyried ac ar gyfer ymgysylltu mewn perthynas â datblygu amcanion strategol newydd ac o ganlyniad i hynny ar gyfer mabwysiadu Cynllun Corfforaethol newydd, a chytunwyd ar linell amser ddiwygiedig ar gyfer datblygu a chytuno ar amcanion strategol a Chynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-26. **Ar yr un pryd cytunodd yr Aelodau i ymestyn yr Amcanion Gwella a Lles cyfredol ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2020-21 yn ddarostyngedig i'r newidiadau angenrheidiol i hwnnw er mwyn adlewyrchu'r ddeinameg newidiol sy'n deillio yn sgil pandemig Cofid-19.**

**Yr Amcanion Llesiant a'r Gweithgareddau Cyfatebol, a Chrynodeb o sut maent yn bodloni'r Nodau Llesiant**

| **EIN CYMUNEDAU** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithio gyda'n cymunedau i ddatblygu lles Economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Eryri.** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| Sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i ddarparu tai fforddiadwy | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy yn ein cymunedau sy'n defnyddio'r rhinweddau a'r cyfleoedd y mae Eryri yn eu darparu | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gyfathrebu'r manteision o ddynodi Eryri fel Parc Cenedlaethol er lles ein cymunedau yn effeithiol | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| Ddatblygu ymhellach ein gwaith o ran deall, hyrwyddo a rheoli ein treftadaeth ddiwylliannol | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan lles pan:**

Yr ydym wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer nifer y tai a nodwyd yn flynyddol yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Sicrhawyd bod pawb sydd â diddordeb wedi cael cyfle i roi mewnbwn trwy Fforwm Eryri i Gynllun Rheoli'r Awdurdod.

Fo budd i'r economi leol yn deillio o waith yr Awdurdod.

Cwblhau Adolygiad Trafnidiaeth a Pharcio'r Wyddfa

Adolygir y Strategaeth Gyfathrebu i sicrhau ei fod yn cynnwys cyfeiriad cryf at fudd dynodiad y Parc Cenedlaethol i'n cymunedau ac yn monitro ei effeithiolrwydd.

Paratoi'r a gweithredi'r strategaeth ar gyfer yr Awdurdod i ddiogelu, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri a monitro ei heffeithiolrwydd.

| CYNLLUNIAU A PHOLISÏAU | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adolygu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) a sicrhau bod egwyddorion Lles Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi'u hintegreiddio'n llawn i waith yr Awdurdod.** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Eryri trwy integreiddio ein rhaglen waith â Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithredu a monitro'n barhaus y Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Datblygu, ymgynghori a chytuno ar amcanion strategol newydd ar gyfer Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2021 i 2026 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Datblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol | ✓ | | | | | ✓ | |

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan lles pan:**

Bydd ein prosiectau yn mynd i'r afael â'r themâu a godwyd yn Natganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru

Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheolaeth y Parc – unwaith y'i mabwysiedir, ac adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod rhoddir diweddariad ar y cynnydd hyd yn hyn.

Y Cynllun Datblygu Lleol – unwaith y'i mabwysiedir fe asesi'r y meysydd y mae angen CCA arnynt ac yna eu blaenoriaethu fel bod pob CCA sy'n ofynnol yn cael eu mabwysiadu o fewn amserlen gytunedig

Amcanion Llesiant Newydd wedi'u mabwysiadu yn barod ar gyfer 2021 ymlaen

| **IECHYD A LLES** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnabyddir Parc Cenedlaethol Eryri fel ardal, sy'n cyfrannu at les corfforol a meddyliol y genedl.** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| Hyrwyddo buddion iechyd Eryri | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddarparu cyfleoedd (gan gynnwys gwirfoddoli) fydd yn cyfrannu tuag at iechyd a lles | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithio gyda phartneriaid allweddol i reoli'r ardal mewn perthynas ag unrhyw reoliadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod wrth ddelio â phandemig Cofid-19 | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |

### Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan lles pan:

Sefydlir beth sy'n tynnu pobl at ardal a'r gweithgareddau y byddant yn cymryd rhan ynddynt.

Y dadansoddir manteision iechyd y gweithgareddau cyfunol hyn.

Hyrwyddir yr amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer mwynhad a dealltwriaeth o'r Parc sy'n cyfrannu at iechyd a lles a monitro ei effeithiolrwydd.

Asesir cynlluniau lles mabwysiedig y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n berthnasol i ardal yr Awdurdod i nodi camau priodol i'w cymryd gan yr Awdurdod mewn Partneriaeth ag eraill mewn perthynas â hybu lles meddyliol da i bawb, gan fagu pobl Ifanc gwydn ac uchelgeisiol a hyrwyddo gwytnwch pobl hŷn.

Fabwysiedir Strategaeth Wirfoddoli.  A'i monitro er mwyn asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn.

Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn llwyr o ran unrhyw reoliadau mewn perthynas â Cofid-19 ac mae wedi cyfleu ei negeseuon allweddol yn effeithiol

| **POBL, LLEOEDD A PHARTNERIAID** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd- |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dros y pum mlynedd nesaf rydym yn anelu at hyrwyddo'r cyfleoedd i weithio gyda phobl, gwirfoddolwyr a phartneriaid mewn ffordd gydweithredol. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i gyfrannu at werthfawrogi a rheoli'r hyn sy'n gwneud Eryri yn werthfawr ac yn arbennig.** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| Fuddsoddi mewn gwirfoddolwyr i ychwanegu gwerth at gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Asesu effeithiolrwydd ein fframwaith ar gyfer gwirfoddoli | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gefnogi datblygiad "Cynlluniau Lle" yn Eryri | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Gwella ymwybyddiaeth a'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithio gyda'n partneriaid lleol, cenedlaethol a rhanbarthol i fynd i'r afael â'r heriau a rheoli'r ardal unwaith y bydd y rheoliadau sy'n rheoli symud ar ôl Cofid-19 gael eu llacio | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan lles pan:**

Mabwysiadwyd y Strategaeth Wirfoddoli. Bydd yn cael ei monitro er mwyn asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at ddibenion statudol yr Awdurdod.

Gynhyrchir adroddiad blynyddol sy'n monitro gweithrediad y fframwaith ar gyfer gwirfoddoli i'r Aelodau.

Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa yw'r Cynllun Lle cyntaf i'w fabwysiadu yn Eryri. Bydd ei effeithiolrwydd yn cael ei asesu ac fe asesir ym mha feysydd y gallai dulliau tebyg fod o fudd i ardaloedd eraill yn y Parc.

Parheir i flaenoriaethu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weithredol yr Awdurdod a bod yr holl staff sy'n debygol o ymdrin â'r cyhoedd yn gallu ymateb i ymholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Bod partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cydlynu ymdrechion mewn perthynas â rheoli pobl a negeseuon pan fydd y cyfyngiadau Cofid-19 yn cael eu llacio

| **CYDBWYSO EIN HADNODDAU A'N HYMDRECHION** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae'r Awdurdod yn targedu ei adnoddau i gyflawni ei flaenoriaethau o fewn yr adnoddau llai sydd ar gael.** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel, gan gynnwys gwerthusiadau blynyddol ffurfiol i gynorthwyo gyda rheoli perfformiad | ✓ | | | ✓ | | | ✓ |
| Datblygu a chefnogi ein Haelodau i reoli'r Awdurdod yn effeithiol yn ystod y cyfnod hwn o newid | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| Ddenu cyllid allanol i hyrwyddo gwaith yr Awdurdod ymhellach wrth gyflawni ei bwrpasau statudol | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Adolygu ymrwymiadau gwariant presennol er mwyn amddiffyn yr Awdurdod rhag colli ffrydiau incwm yn y cyfnod hwn | | ✓ | | | | | |
| Ail-broffilio pob prosiect a rhaglen gyda'n partneriaid a'n cyllidwyr allweddol i sicrhau bod modd cyflawni pob un ohonynt yn dilyn y cyfyngiadau ar y gallu i gyflawni oherwydd pandemig Cofid-19 | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |

## Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan lles pan:

Mae'r blaenoriaethau'r gwasanaeth a'r strategaeth ariannol wedi cael eu mabwysiadu, ond efallai y bydd angen hyblygrwydd gyda hyn yn y cyfnod hwn o ansicrwydd ariannol.  Bydd angen monitro hyn yn barhaus a chynnal adolygiad o bosibl yn ystod y cyfnod hwn.

% o staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso yn ystod y 12 mis diwethaf.

% y staff yn fodlon neu'n fodlon iawn â'u swyddi.

% y staff sy'n dweud eu bod yn fodlon â lefel y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a gânt gan eu rheolwyr llinell uniongyrchol.

Pan fo 100% o aelodau newydd yr Awdurdod o fewn unrhyw gyfnod 12 mis wedi mynychu sesiwn Ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd.

% or aelodau sydd wedi ymgymryd â chyfarfod Adolygu Datblygiad Personol mewn perthynas â'u hanghenion cymorth a datblygu.

Asesir ffrydiau arian cyllido tebygol sydd ar gael i gyflawni ein dibenion statudol a'r gallu i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf.

Monitro ymrwymiadau gwariant a chynhyrchu incwm yn y cyfnod hwn.









Nodi yr holl raglenni a phrosiectau y mae Cofid-19 wedi effeithio arnynt, a galluogi mesurau lliniaru addas er mwyn ymateb i unrhyw lithriad.

Mae gwasanaethau wedi adolygu ac ail-broffilio ymrwymiadau gwariant cyfredol er mwyn lleihau'r pwysau ar ein cronfeydd wrth gefn.

# 6. Gwariant Gros ar y 7 Nod Llesiant

**CRYNODEB: AMCAN GWREIDDIOL DRAFFT 2020/21 - GWARIANT GROS AR Y 7 NOD LLESIANT**

Mae cost net y gwasanaethau cefnogol yn cael ei dyrannu ar draws cyllidebau eraill. Mae'r ffigyrau'n cynnwys gwariant refeniw a chyfalaf a chostau cyfalaf. Mae prosiect Yr Ysgwrn, HLF, wedi'i gynnwys o fewn Cadwraeth o Dreftadaeth Ddiwylliannol

| | | Llewyrchus | | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 13% | | 12% | 7% | 15% | 18% | 14% | 79% |
| | | | | | | £ | | | |
| **Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol** |  | 345,619 | 637,287 | 172,810 | 136,351 | 581,863 | 854,563 | 727,697 | **3,456,190** |
| **Cadwraeth o Dreftadaeth Ddiwylliannol** |  | 325,859 | 936,470 | 131,814 | 43,479 | 276,505 | 366,353 | 172,457 | **2,252,937** |
| **Rheoli Hamddena & Trafnidiaeth** |  | 156,194 | 114,526 | 290,154 | 54,833 | 105,263 | 201,115 | 154,295 | **1,076,380** |
| **Hybu Dealltwriaeth** |  | 476,508 | 395,305 | 426,951 | 441,475 | 336,791 | 432,519 | 336,791 | **2,846,340** |
| **Wardeiniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfodd** |  | 157,897 | 394,742 | 394,742 | 78,949 | 236,846 | 157,897 | 157,897 | **1,578,970** |
| **Rheolaeth Datblygu** |  | 95,093 | 63,395 | 31,698 | 31,698 | 190,185 | 95,093 | 126,788 | **633,950** |
| **Blaen Cynllunio & Cymunedau** |  | 97,689 | 83,349 | 69,008 | 50,786 | 140,711 | 79,467 | 130,250 | **651,260** |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** |  | 102,942 | 102,942 | 68,628 | 68,628 | 137,255 | 137,254 | 68,628 | **686,277** |
| **Cynrychiolaeth Democratic & Rheolaeth** |  | 34,383 | 34,383 | 22,922 | 22,922 | 45,844 | 45,844 | 22,922 | **229,220** |
| **Cyfanswm Gwariant Gwasanaeth** | | **1,792,184** | **2,762,399** | **1,608,727** | **929,121** | **2,051,263** | **2,370,105** | **1,897,725** | **13,411,524** |
| Incwm o grantiau, ffioedd a thaliadau penodol | | -759,976 | -1,062,481 | -666,725 | -342,449 | -900,262 | -1,214,049 | -895,028 | **-5,840,970** |
| **Lefi oddi wrth ALl cyfansoddol a Grant PC (LIC)** | | | | | | | | | **-4,993,683** |
| Neilltuadau o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer prosiectau | | | | | | | | | **-1,986,071** |
| Addasiad taliadau cyfalaf | | | | | | | | | **-567,800** |
| Llog Banc | | | | | | | | | **-23,000** |
| | | | | | | | | | **-13,411,524** |

# 7. Dangosyddion Perfformiad

## Rhestr o Ddangosyddion Perfformiad ar gyfer 2020-21

**FFRAMWAITH PERFFORMIAD CYNLLUNIO:**

**DANGOSYDDION, TARGEDAU A FFYNONELLAU DATA**

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Fframwaith Perfformiad drafft, a nododd gyfres o ddangosyddion arfaethedig a ddefnyddir i nodi perfformiad awdurdodau yn erbyn mesurau gwasanaeth allweddol. Bydd perfformiad yn erbyn yr un peth yn cael ei adrodd i'r PwyIlgor Perfformiad ac Adnoddau trwy gydol y flwyddyn a bydd adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi a'i drafod yn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.

**DANGOSYDDION PERFFORMIAD CORFFORAETHOL:**

| Rhif | Dangosydd Perfformiad Corfforaethol | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| CHR/ 001 | Canran o weithwyr sy'n rhoi'r gorau i'w swydd â'r awdurdod, un ai'n wirfoddol neu'n anwirfoddol. | 7% | **7.4%** | 7% |
| CHR/ 002 | Nifer y diwrnodau gwaith / shifftiau cyfwerth ag amser llawn mae gweithwyr yr awdurdod wedi eu colli oherwydd salwch. | 7 diwrnod | **11.5 diwrnod** | 6 diwrnod |
| CFH/ 006 | Canran yr anfonebau na chafodd eu gwrthwynebu a gafodd eu talu cyn pen 30 diwrnod o gyrraedd yr awdurdod. | 98% | **98.95%** | 98% |

**Dangosyddion Perfformiad Lleol 2019-20**

Mae Dangosyddion Perfformiad Lleol yn mesur perfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant y cytunwyd arnynt sydd wedi'u nodi yn Rhan 5 o'r Cynllun hwn.

| Amcan Llesiant | Dangosydd Perfformiad | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Yr ydym wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer nifer y tai a nodwyd yn flynyddol yn y Cynllun Datblygu Lleol. | Do - yn unol â'r targed yn y CDLl | Heb ei gyflawni. 2 allan o darged o 26 | Yn unol â'r targed yn y CDLl |
| 1 | Sicrhawyd bod pawb sydd â diddordeb wedi cael cyfle i roi mewnbwn trwy Fforwm Eryri i Gynllun Rheoli'r Awdurdod. | 100% | Cyflawnwyd y targed. | 100% |
| 1 | Mae budd i'r economi leol yn deillio o waith yr Awdurdod. | Gwaelodlin i'w osod | Heb ei gyflawni. Ni symudwyd ymlaen â'r gwaith. | Gwaelodlin i'w osod |
| 1 | Cwblhau Adolygiad Trafnidiaeth a Pharcio'r Wyddfa | - | - | Cwblhau'r adolygiad |
| 1 | Adolygir y Strategaeth Gyfathrebu i sicrhau ei fod yn cynnwys cyfeiriad cryf at fudd dynodiad y Parc Cenedlaethol i'n cymunedau ac yn monitro ei effeithiolrwydd. | I fwrw ymlaen â'r adolygiad | Heb ei gyflawni. | I fwrw ymlaen â'r adolygiad |
| 1 | Paratoi'r a gweithredi'r strategaeth ar gyfer yr Awdurdod i ddiogelu, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri a monitro ei heffeithiolrwydd. | Paratoi Strategaeth | Heb ei gyflawni. | Paratoi Strategaeth |

| Amcan Llesiant | Dangosydd Perfformiad | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Bydd ein prosiectau yn mynd i'r afael â'r themâu a godwyd yn Natganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru. | - | - | Aliniad wedi'i gyflawni |
| 2 | Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheolaeth y Parc – unwaith y'i mabwysiedir, ac adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod rhoddir diweddariad ar y cynnydd hyd yn hyn. | Unwaith y'i mabwysiedir - adroddiad blynyddol | CDLl: Cyflawnwyd CRhP: Hebe i gyflawni. CRh heb ei fabwysiadu eto | Adroddiad Blynyddol |
| 2 | Y Cynllun Datblygu Lleol - unwaith y'i mabwysiedir fe asesi'r meysydd y mae angen CCA arnynt ac yna eu blaenoriaethu fel bod pob CCA sy'n ofynnol yn cael eu mabwysiadu o fewn amserlen gytunedig | Unwaith y'i mabwysiedir – Asesiad wedi'i wneud | Cyflawnwyd. Y gwaith wedi dechrau ac yn symud ymlaen yn dda | Cychwyn y gwaith ar y CCA yn unol â'r amserlen a gytunwyd. |
| 2 | Amcanion Llesiant Newydd wedi'u mabwysiadu yn barod ar gyfer 2021 ymlaen | - | - | Mabwysiadwyd amcanion Llesiant Newydd |
| 3 | Sefydlir beth sy'n tynnu pobl at ardal a'r gweithgareddau y byddant yn cymryd rhan ynddynt. | Arolwg wedi'i gynnal | Heb ei gyflawni. Rhan o'r data sylfaenol sy'n dod i'r amlwg gyda gwaith paratoi CRPC. | Arolwg wedi'i gynnal |
| 3 | Dadansoddir manteision iechyd y gweithgareddau cyfunol hyn. | Dadansoddiad wedi'i wneud | Heb ei gyflawni. Rhan o'r data sylfaenol sy'n dod i'r amlwg gyda gwaith paratoi CRPC. | Dadansoddiad wedi'i wneud |
| 3 | Hyrwyddir yr amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer mwynhad a dealltwriaeth o'r Parc sy'n cyfrannu at iechyd a lles a monitro ei effeithiolrwydd. | Defnyddio canlyniadau'r arolwg a dadansoddiad dilynol wrth baratoi strategaeth ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd | Heb ei gyflawni. Rhan o'r data sylfaenol sy'n dod i'r amlwg gyda gwaith paratoi CRPC. | Defnyddio'r canlyniadau'r arolwg a'r dadansoddiad dilynol i ddatblygu strategaeth i hyrwyddo cyfleoedd |

| Amcan Llesiant | Dangosydd Perfformiad | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| 3 | Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn llwyr o ran unrhyw reoliadau mewn perthynas â Cofid-19 ac mae wedi cyfleu ei negeseuon allweddol yn effeithiol | - | - | Cydymffurfiad statudol wedi'i gyflawni |
| 3 & 4 | Mabwysiedir Strategaeth Wirfoddoli. A'i monitro er mwyn asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn. | Monitro ac Asesiad wedi'i wneud | Heb ei gyflawni. Y swydd berthnasol yn wag. Mae'r swydd newydd y cael ei ail becynnu i gynnwys lles a chyfrifoldebau gwirfoddoli. | Monitro ac Asesiad wedi'i wneud |
| 4 | Cynhyrchir adroddiad blynyddol sy'n monitro gweithrediad y fframwaith ar gyfer gwirfoddoli i'r Aelodau. | Adroddiad blynyddol | Heb ei gyflawni. Fel yr uchod. | Adroddiad blynyddol |
| 4 | Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa yw'r Cynllun Lle cyntaf i'w fabwysiadu yn Eryri. Bydd ei effeithiolrwydd yn cael ei asesu ac fe asesir ym mha feysydd y gallai dulliau tebyg fod o fudd i ardaloedd eraill yn y Parc. | Asesiad wedi'i wneud | Cynllun Partneriaeth y Wyddfa wedi'i fabwysiadu. | Asesu ei effeithiolrwydd ac os yw dull tebyg yn fuddiol i fannau eraill o'r Parc |
| 4 | Asesu'r cynlluniau lles a fabwysiadwyd sy'n berthnasol i ardal yr Awdurdod i nodi camau priodol i'w cymryd gan yr Awdurdod mewn partneriaeth ag eraill. | Asesiad wedi'i wneud | Heb ei gyflawni. Yn disgwyl cynlluniau gweithredu manwl gan y BGLl. | Asesiad wedi'i wneud |
| 4 | Parheir i flaenoriaethu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weithredol yr Awdurdod a bod yr holl staff sy'n debygol o ymdrin â'r cyhoedd yn gallu ymateb i ymholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg | Adroddiad blynyddol | Cyflawnwyd. | Adroddiad Blynyddol |
| 4 | Bod partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cydlynu ymdrechion mewn perthynas â rheoli pobl a negeseuon pan fydd cyfyngiadau i Cofid-19 yn cael eu llacio | - | - | Cydlyniad wedi'i gyflawni |
| 5 | Mae'r blaenoriaethau'r gwasanaeth a'r strategaeth ariannol wedi cael eu mabwysiadu, ond efallai y bydd angen hyblygrwydd gyda hyn yn y cyfnod hwn o ansicrwydd ariannol. Bydd angen monitro hyn yn barhaus a chynnal adolygiad o bosibl yn ystod y cyfnod hwn. | Mabwysiadwyd blaenoriaethau'r gwasanaeth a'r strategaeth ariannol | Cyflawnwyd. | Parhau i fonitro |

| Amcan Llesiant | Dangosydd Perfformiad | Targed 2019-20 | Canlyniad 2019-20 | Targed 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| 5 | % o staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso yn ystod y 12 mis diwethaf. | 95% | Heb ei gyflawni. 75% | 95% |
| 5 | % y staff yn fodlon neu'n fodlon iawn â'u swyddi. | Gwaelodlin i'w osod | 87.8% 41 wedi ymateb. | 90% |
| 5 | % y staff sy'n dweud eu bod yn fodlon â lefel y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a gânt gan eu rheolwyr llinell uniongyrchol. | 90% | Heb ei gyflawni. 85.4% 41 wedi ymateb. | 87% |
| 5 | Pan fo 100% o aelodau newydd yr Awdurdod o fewn unrhyw gyfnod 12 mis wedi mynychu sesiwn Ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd. | 100% | Cyflawnwyd y targed. | 100% |
| 5 | % o'r aelodau sydd wedi ymgymryd â chyfarfod Adolygu Datblygiad Personol mewn perthynas â'u hanghenion cymorth a datblygu. | Gwaelodlin i'w osod | 0% | 50% |
| 5 | Asesu'r ffrydiau arian cyllido tebygol sydd ar gael i gyflawni ein dibenion statudol a'r gallu i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. | Asesiad wedi'i wneud | Cyflawnwyd. | Parhau i fonitro'r sefyllfa. |
| 5 | Monitro ymrwymiadau gwariant a chynhyrchu incwm yn y cyfnod hwn | - | - | Parhau i fonitro |
| 5 | Nodwyd pob rhaglen a phrosiect yr effeithiwyd arno gan Cofid-19 ac fe alluogwyd mesurau lliniaru addas i wrthsefyll unrhyw lithriad | - | - | Monitro'r sefyllfa |
| 5 | Mae gwasanaethau wedi adolygu ac ail-broffilio ymrwymiadau gwariant cyfredol er mwyn lleihau'r pwysau ar ein cronfeydd wrth gefn | - | - | Cwblhawyd yr adolygiad |

# 8. Fframwaith Cynllunio Corfforaethol

Mae gan Aelodau'r Awdurdod ran bwysig i'w chwarae i sicrhau bod y fframwaith cynllunio corfforaethol yn darparu proses gadarn i sicrhau canlyniadau llwyddiannus.

Fel rhan o'r broses hon, mae data am ein Dangosyddion Perfformiad yn cael eu casglu ac mae adroddiadau'n cael eu paratoi i'w harchwilio gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau dair gwaith y flwyddyn.

Adroddir hefyd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau dair gwaith y flwyddyn am y Rhaglen Waith Gorfforaethol, cynllun blynyddol â thasgau penodol fel sail i bob amcan llesiant.


Mae'r broses werthuso a gynhelir gyda phob aelod o staff yr Awdurdod yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro, ac mae hefyd yn gyfle i'r staff adrodd eu bod wedi cwblhau eu tasgau unigol mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant yn ogystal ag unrhyw broblemau a gafwyd.

Nodir y fframwaith cynllunio corfforaethol yn rhan 9.

# 9. Yr Edau Aur

## Yr EDAU AUR

### FfRAMWAITH CYNLLUNIO CORFFORAETHOL APCE



# 10. Manylion Cyswllt

Croesawn eich mewnbwn ynghyd â'ch awgrymiadau ar osod amcanion llesiant newydd a heriol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Cysylltwch ag Iwan Jones â'ch sylwadau.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch y manylion a nodir yn y Cynllun Corfforaethol hwn trwy ysgrifennu neu anfon e-bost at:

**Iwan Jones**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol / Director of Corporate Services
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri / Snowdonia National Park Authority
Ffôn / Phone: 01766 772204
e-bost / e-mail: iwan.jones@eryri.llyw.cymru
www.eryri.llyw.cymru

JO/Perfformiad/
Cynllun Corfforaethol 2021-21 (Cym)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 3 Mehefin, 2020 |
| **TEITL** | **RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2020-21** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2020-21 |

## 1. CEFNDIR:

1.1 Yn 2018-19 cyfunodd yr Awdurdod ei amcanion gwella yn ei ddatganiad llesiant a chynhyrchu un ddogfen. Yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad mewnol ac allanol, cymeradwyodd yr Aelodau bum maes lle dylid datblygu amcanion gwelliant a lles, y meysydd hynny yw: Ein cymunedau, Cynlluniau a pholisïau, Iechyd a lles, Pobl, lleoedd a phartneriaid a Chydbwyso ein hadnoddau a'n hymdrechion.

1.2 Er bod yr amcanion yn cael eu gosod bob blwyddyn, maent wedi'u bwriadu fel amcanion tymor canolig i hir dymor gan weithio tuag at gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod a'r 7 nod Llesiant fel y'u nodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.3 Yn ystod cyfarfod o'r Awdurdod ar 11 Rhagfyr 2019, cytunodd Aelodau i ymestyn yr amcanion gwella a lles cyfredol ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2020-21 a mabwysiadu llinell amser diwygiedig ar gyfer datblygu a chytuno ar Amcanion Strategol a Chynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-26.

1.4 Yn y cyfamser mae'r pandemig Cofid-19 wedi cael effaith ar lif gwaith yr Awdurdod ac mae'r Rhaglen Gorfforaethol wedi cael ei ddiwygio i ystyried a chynnwys camau y bydd swyddogion yn cymryd er mwyn ymateb i oblygiadau Cofid-19 a'r effaith ar waith yr Awdurdod.

1.5 Mae Rhaglen Waith Corfforaethol (Drafft) ynghlwm wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer yr Awdurdod sy'n amlinellu prosiectau, mentrau a chamau gweithredu penodol a fydd yn cael eu cynnal eleni i gyflawni'r Amcanion Gwelliant a Blaenoriaethau Gwasanaeth ac mewn ymateb i goblygiadau Cofid-19 ar yr Awdurdod. Mae rhai o'r prosiectau gwaith wedi cael eu cario ymlaen o'r ddwy flynedd ddiwethaf a byddant yn parhau ac yn symud ymlaen â'r gwaith.

1.6 Unwaith y cwblheir y prosiectau a'r mentrau, bydd yr Awdurdod yn gallu mesur os yw'r gwelliannu wedi cael eu cyflawni ymhob un o'r pum maes ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020-21.

## 2. GOBLYGIADAU ADNODDAU:

2.1 Bydd y Rhaglen Waith Corfforaethol yn cael effaith ar adnoddau staff a goblygiadau ariannol ill dau ond fe ystyriwyd y ffactorau hyn wrth baratoi'r rhaglen.

**3. ARGYMHELLIAD:**

**3.1 Bod yr Aelodau yn mabwysiadu'r Rhaglen Waith Corfforaethol (Drafft) fel dogfen weithredol ar gyfer 2020-21.**

**4. PAPUR CEFNDIROL:** Rhaglen Waith Corfforaethol (Drafft) 2020-21.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

# RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2020-21

*** SYLWER***

Dogfen wedi'i diwygio i adlewyrchu sefyllfa gyfredol Cofid-19 a thu hwnt

Dogfen Weithio

# RHAGLEN WAITH CORFFROAETHOL

# 2020 - 2021

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri'n ymrwymedig i Ddatblygu Cynaliadwy a Gwelliant Parhaus. Mae'r ddogfen hon yn rhan allweddol o'r system y mae'r Awdurdod yn ei defnyddio i sefydlu ei raglen waith ac i fonitro perfformiad a gwelliant.

Mae'r **Rhaglen Waith Corfforaethol** yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n manylu ar weledigaeth gorfforaethol a chanlyniadau blaenoriaeth yr Awdurdod, sy'n cynnwys y Cynllun Corfforaethol a Llyfr y Gyllideb.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ddogfen strategol lefel uchel sy'n amlinellu ein hegwyddorion arweiniol, blaenoriaethau a risgiau allweddol; o gymharu, y **Rhaglen Waith Corfforaethol** yw'r ddogfen weithio sy'n egluro'n glir sut yr ydym yn bwriadu gwneud hynny.

Penderfynwyd yn flaenorol y dylai'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020/21 gadw amcanion strategol y blynyddoedd blaenorol wrth i Aelodau'r Awdurdod benderfynu gohirio eu hadolygiad o'r Amcanion Llesiant hyd nes y gellir ymgynghori ymhellach yn 2020 gyda'r diben o gytuno ar Amcanion Lles ar gyfer y cyfnod 2021 i 2026. Mae'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020/21 yn Gynllun pontio ar gyfer diben o'r fath.

Ers i aelodau'r Awdurdod gytuno ar ddull gweithredu o'r fath, mae sefyllfa'r Awdurdod fel pob sector arall wedi newid yn ddramatig oherwydd yr angen i amddiffyn iechyd y cyhoedd rhag pandemig Cofid-19 a'r gofynion o fynd i'r afael â'r bygythiad i gymdeithas. Yn unol â hynny, mae hyn wedi golygu bod angen newid Blaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod a rhai elfennau o'r amcanion llesiant eu hunain ill dau er mwyn galluogi'r Awdurdod i ganolbwyntio ei adnoddau ar y mannau hynny lle mae ei angen fwyaf. Mae'n dilyn bod rhai o'r gweithgareddau yn y Rhaglen Waith hon wedi'u diwygio i adlewyrchu'r mater hwn sy'n esblygu'n gyflym.

## 2. CYNNWYS Y RHAGLEN

2.1 Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i gyhoeddi Datganiad Llesiant yn nodi sut mae ei amcanion llesiant yn cyfrannu at y saith nod llesiant fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod hefyd fabwysiadu Cynllun Gwella Statudol yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Daeth y Mesur i rym ym mis Ebrill 2010 a gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Roedd y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu a chyhoeddi Cynllun Gwella (ym mis Ebrill) ac mae'n rhaid iddo gynnwys amcanion gwella.

2.2 Ym mis Tachwedd, 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Mae'r Bil yn cadarnhau y bydd Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn

cael ei ddadgymhwyso i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol Unedol ac Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Nid ydym yn gwybod union amseriad y dadgymhwysiad. Canlyniad hyn yw, pan fydd yr Awdurdod am ystyried ei amcanion strategol newydd, nid oes angen mabwysiadu mesurau tymor byr (amcanion gwella). Yn amlwg, bydd angen i amcanion strategol yr Awdurdod adlewyrchu ein pwrpasau a'n dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 1995 a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant a Chenhedlaeth y Dyfodol 2015 (Amcanion Llesiant).

## 3. AMCANION LLES A GWELLIANT CYFREDOL

3.1 Er bod yr amcanion yn cael eu gosod bob blwyddyn, maent wedi'u bwriadu fel amcanion tymor canolig i hir dymor gan weithio tuag at gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod a'r 7 nod Llesiant fel y'u nodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3.2 Yn 2018-19 cyfunodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ei amcanion gwella yn ei ddatganiad llesiant a'i gynhyrchu fel un ddogfen. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cael ei gefnogi ac yn cael ei archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, cymeradwyodd yr Aelodau ei amcanion Gwella a Lles ar gyfer 2018 - 2023 i'w cynnwys yn ei Gynllun Corfforaethol a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2018.

3.3 Cymeradwyodd yr Aelodau bum maes lle y dylid datblygu amcanion llesiant a gwella:

- Ein Cymunedau
- Cynlluniau a Pholisïau
- Iechyd a Lles
- Pobl, Lleoedd a Phartneriaid
- Cydbwyso ein hadnoddau a'n hymdrechion

3.4 Mae cyhoeddi'r Datganiad "Gwerthfawr a Chydnerth" wedi cadarnhau blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau dynodedig Cymru ac mae'r Aelodau wedi cadarnhau bod angen adolygu amcanion lles a gwella'r Awdurdod i ddarparu ar gyfer blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y tirweddau dynodedig.

3.5 Nododd y Cynllun Corfforaethol blaenorol yr angen i weithio mewn partneriaeth â'n BGC (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus) perthnasol er mwyn cyflawni rhai o'n amcanion lles.

Fodd bynnag, mae'r cynnydd ar ganlyniadau o'r fath wedi bod yn araf ac yn amrywiol ac wrth edrych ymlaen mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod ein hamcanion lles a'n hamcnion gwella a'r Cynllun Corfforaethol yn nodi camau y gellir eu cyflawni trwy ein hymdrechion ein hunain yn hytrach na dibynnu ar bartneriaid, yn enwedig mewn cyfnod lle mae cydweithredu yn mynd i fod yn anodd ar lefel weithredol.

3.6 Yn dilyn trafodaeth, argymhellodd yr Aelodau y byddai angen amser i ystyried ac ar gyfer ymgysylltu mewn perthynas â datblygu amcanion strategol newydd ac o ganlyniad i hynny ar gyfer mabwysiadu Cynllun Corfforaethol newydd, a chytunwyd ar linell amser ddiwygiedig ar gyfer datblygu a chytuno ar amcanion strategol a Chynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-26. **Ar yr un pryd cytunodd yr Aelodau i ymestyn yr Amcanion Gwella a Lles cyfredol ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2020-21.**

## 4. BLAENORIAETHAU GWASANAETH

Wrth baratoi ei flaenoriaethau gwasanaeth a'i amcanion lles, ystyriodd yr Awdurdod ddeddfwriaeth allweddol a datganiadau polisi strategol, cynlluniau perthnasol eraill a barn staff, ei aelodau, rhanddeiliaid allweddol ac aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys:

- Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2016-2021, Symud Cymru Ymlaen
- Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol
- Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Polisi Adnoddau Naturiol
- Llythyr cylch gwaith a gyhoeddir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru i'r Awdurdod
- Gweithredu Cynllun Rheoli'r Parc (Cynllun Eryri)
- Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar yr Awdurdod
- Cynlluniau Lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a Chonwy a Sir Ddinbych
- Ymatebion ymgynghoriad annibynnol a barn rhanddeiliaid.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir gennym a'r ffordd yr ydym yn eu darparu yn newid oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol a'r cyfyngiadau ariannol ar ein cyllideb.

Fodd bynnag, nid yw'r her ariannol yr ydym yn ei wynebu wedi golygu bod yna ostyngiad cyfatebol yn y galw arnom i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, ac yn y cyd-destun hwn, mae'r Awdurdod wedi nodi beth yw ei flaenoriaethau gwasanaeth yn y dyfodol a sut y dylid darparu gwasanaethau yn y dyfodol fel bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r adnoddau sydd ar gael i'r Awdurdod yn y ffordd fwyaf cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Parc.

**Nodir ein blaenoriaethau gwasanaeth ar gyfer y blynyddoedd ariannol i ddod fel a ganlyn:**

- sicrhau bod yr amcanion yng Nghynllun Rheoli'r Parc yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus gennym ni ein hunain, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn gwella cyflwr y Parc;

- sicrhau bod gan y swyddogaeth gynllunio statudol ddigon o adnoddau a'i bod yn cael ei rheoli'n effeithiol er mwyn bodloni polisïau cenedlaethol, disgwyliadau cwsmeriaid a chefnogi cymunedau cynaliadwy;

- dod o hyd i ffrydiau incwm newydd i gefnogi pwrpasau’r Parc a'r Awdurdod.

- sicrhau ein bod yn ymwneud yn llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn eu cyflawni;

- dangos yn lleol ac yn genedlaethol beth yw manteision cael Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei le yn rheoli lle mor arbennig ag Eryri, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;

- amddiffyn ein staff, preswylwyr, defnyddwyr a’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol rhag lledaenu firws Cofid-19 ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol;

- sicrhau bod staff ac aelodau'n cael cefnogaeth ddigonol yn eu trefniadau gweithio mewn cyfnod o'r fath a bod lles staff yn cael ei gefnogi;

- mynd i'r afael â'r anghenion gweithredol a'r pwysau ariannol sy'n deillio o gyfyngiadau a heriau gweithredu mewn amgylchedd heriol a'r mesurau gofynnol wrth ddelio â phandemig Cofid-19;

**Mae'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei fusnes yn ystod y cyfnodau economaidd hyn yr un mor bwysig ac yng nghyd-destun hyn bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r dull gweithredu a ganlyn:**

- ymgorffori datblygiad cynaliadwy yn ddyfnach fyth fel egwyddor graidd sy'n arwain ein holl waith;

- trwy weithio gyda'n partneriaid, mabwysiadu rôl o alluogi a hwyluso wrth gyflawni ein pwrpasau;

- gwerthuso holl ymrwymiadau ariannol tymor hir ac ymrwymiadau eraill ar gyfer pob prosiect posibl;

- gweithio gyda'n cymunedau wrth gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod;

## 4. AMCANION GWELLIANT A LLESIANT

**Yr Amcanion Llesiant a'r Gweithgareddau Cyfatebol, a Chrynodeb o sut maent yn bodloni'r Nodau Llesiant**

| **EIN CYMUNEDAU** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithio gyda'n cymunedau i ddatblygu lles Economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Eryri.** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| Sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i ddarparu tai fforddiadwy | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy yn ein cymunedau sy'n defnyddio'r rhinweddau a'r cyfleoedd y mae Eryri yn eu darparu | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gyfathrebu'r manteision o ddynodi Eryri fel Parc Cenedlaethol er lles ein cymunedau yn effeithiol | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| Ddatblygu ymhellach ein gwaith o ran deall, hyrwyddo a rheoli ein treftadaeth ddiwylliannol | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ |

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan lles pan:**

Yr ydym wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer nifer y tai a nodwyd yn flynyddol yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Sicrhawyd bod pawb sydd â diddordeb wedi cael cyfle i roi mewnbwn trwy Fforwm Eryri i Gynllun Rheoli'r Awdurdod.

Fo budd i'r economi leol yn deillio o waith yr Awdurdod.

Cwblhau Adolygiad Trafnidiaeth a Pharcio'r Wyddfa.

Adolygir y Strategaeth Gyfathrebu i sicrhau ei fod yn cynnwys cyfeiriad cryf at fudd dynodiad y Parc Cenedlaethol i'n cymunedau ac yn monitro ei effeithiolrwydd.

Paratoi'r a gweithredi'r strategaeth ar gyfer yr Awdurdod i ddiogelu, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri a monitro ei heffeithiolrwydd.

| CYNLLUNIAU A PHOLISÏAU | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adolygu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) a sicrhau bod egwyddorion Lles Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi'u hintegreiddio'n llawn i waith yr Awdurdod.** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Eryri trwy integreiddio ein rhaglen waith â Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithredu a monitro'n barhaus y Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Datblygu, ymgynghori a chytuno ar amcanion strategol newydd ar gyfer Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2021 i 2026 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Datblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol | ✓ | | | | | ✓ | |

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan lles pan:**

Bydd ein prosiectau yn mynd i'r afael â'r themâu a godwyd yn Natganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru

Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheolaeth y Parc – unwaith y'i mabwysiedir, ac adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod rhoddir diweddariad ar y cynnydd hyd yn hyn.

Y Cynllun Datblygu Lleol – unwaith y'i mabwysiedir fe asesi'r y meysydd y mae angen CCA arnynt ac yna eu blaenoriaethu fel bod pob CCA sy'n ofynnol yn cael eu mabwysiadu o fewn amserlen gytunedig

Amcanion Llesiant Newydd wedi'u mabwysiadu yn barod ar gyfer 2021 ymlaen

| IECHYD A LLES | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnabyddir Parc Cenedlaethol Eryri fel ardal, sy'n cyfrannu at les corfforol a meddyliol y genedl.** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| Hyrwyddo buddion iechyd Eryri | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddarparu cyfleoedd (gan gynnwys gwirfoddoli) fydd yn cyfrannu tuag at iechyd a lles | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithio gyda phartneriaid allweddol i reoli'r ardal mewn perthynas ag unrhyw reoliadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod wrth ddelio â phandemig Cofid-19 | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan lles pan:**

Sefydlir beth sy'n tynnu pobl at ardal a'r gweithgareddau y byddant yn cymryd rhan ynddynt.

Y dadansoddir manteision iechyd y gweithgareddau cyfunol hyn.

Hyrwyddir yr amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer mwynhad a dealltwriaeth o'r Parc sy'n cyfrannu at iechyd a lles a monitro ei effeithiolrwydd.

Fabwysiedir Strategaeth Wirfoddoli.  A'i monitro er mwyn asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn.

Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn llwyr o ran unrhyw reoliadau mewn perthynas â Cofid-19 ac mae wedi cyfleu ei negeseuon allweddol yn effeithiol

| POBL, LLEOEDD A PHARTNERIAID | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dros y pum mlynedd nesaf rydym yn anelu at hyrwyddo'r cyfleoedd i weithio gyda phobl, gwirfoddolwyr a phartneriaid mewn ffordd gydweithredol. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i gyfrannu at werthfawrogi a rheoli'r hyn sy'n gwneud Eryri yn werthfawr ac yn arbennig.** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| Fuddsoddi mewn gwirfoddolwyr i ychwanegu gwerth at gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Asesu effeithiolrwydd ein fframwaith ar gyfer gwirfoddoli | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gefnogi datblygiad "Cynlluniau Lle" yn Eryri | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Gella ymwybyddiaeth a'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithio gyda'n partneriaid lleol, cenedlaethol a rhanbarthol i fynd i'r afael â'r heriau a rheoli'r ardal unwaith y bydd y rheoliadau sy'n rheoli symud ar ôl Cofid-19 yn cael eu llacio | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan lles pan:**

Mabwysiadwyd y Strategaeth Wirfoddoli. Bydd yn cael ei monitro er mwyn asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at ddibenion statudol yr Awdurdod.

Gynhyrchir adroddiad blynyddol sy'n monitro gweithrediad y fframwaith ar gyfer gwirfoddoli i'r Aelodau.

Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa yw'r Cynllun Lle cyntaf i'w fabwysiadu yn Eryri. Bydd ei effeithiolrwydd yn cael ei asesu ac fe asesir ym mha feysydd y gallai dulliau tebyg fod o fudd i ardaloedd eraill yn y Parc.

Parheir i flaenoriaethu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weithredol yr Awdurdod a bod yr holl staff sy'n debygol o ymdrin â'r cyhoedd yn gallu ymateb i ymholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Bod partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cydlynu ymdrechion mewn perthynas â rheoli pobl a negeseuon pan fydd y cyfyngiadau Cofid-19 yn cael eu llacio

| CYDBWYSO EIN HADNODDAU A'N HYMDRECHION | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae'r Awdurdod yn targedu ei adnoddau i gyflawni ei flaenoriaethau o fewn yr adnoddau llai sydd ar gael.** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Byddwn yn cyflawni hyn drwy:** | | | | | | | |
| Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel, gan gynnwys gwerthusiadau blynyddol ffurfiol i gynorthwyo gyda rheoli perfformiad | ✓ | | | ✓ | | | ✓ |
| Datblygu a chefnogi ein Haelodau i reoli'r Awdurdod yn effeithiol yn ystod cyfnod o newid | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| Ddenu cyllid allanol i hyrwyddo gwaith yr Awdurdod ymhellach wrth gyflawni ei bwrpasau statudol | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Adolygu ymrwymiadau gwariant presennol er mwyn amddiffyn yr Awdurdod rhag colli ffrydiau incwm yn y cyfnod hwn | | ✓ | | | | | |
| Ail-broffilio pob prosiect a rhaglen gyda'n partneriaid a'n cyllidwyr allweddol i sicrhau bod modd cyflawni pob un ohonynt yn dilyn y cyfyngiadau ar y gallu i gyflawni oherwydd pandemig Cofid-19 | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan lles pan:**

Mae'r blaenoriaethau'r gwasanaeth a'r strategaeth ariannol wedi cael eu mabwysiadu, ond efallai y bydd angen hyblygrwydd gyda hyn yn y cyfnod hwn o ansicrwydd ariannol. Bydd angen monitro hyn yn barhaus a chynnal adolygiad o bosibl yn ystod y cyfnod hwn.

% o staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso yn ystod y 12 mis diwethaf.

% y staff yn fodlon neu'n fodlon iawn â'u swyddi.

% y staff sy'n dweud eu bod yn fodlon â lefel y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a gânt gan eu rheolwyr llinell uniongyrchol.

Pan fo 100% o aelodau newydd yr Awdurdod o fewn unrhyw gyfnod 12 mis wedi mynychu sesiwn Ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd.

% or aelodau sydd wedi ymgymryd â chyfarfod Adolygu Datblygiad Personol mewn perthynas â'u hanghenion cymorth a datblygu.

Asesir ffrydiau arian cyllido tebygol sydd ar gael i gyflawni ein dibenion statudol a'r gallu i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf.

Monitro ymrwymiadau gwariant a chynhyrchu incwm yn y cyfnod hwn.

Nodi yr holl raglenni a phrosiectau y mae Cofid-19 wedi effeithio arnynt, a galluogi mesurau lliniaru addas er mwyn ymateb i unrhyw lithriad.

Mae gwasanaethau wedi adolygu ac ail-broffilio ymrwymiadau gwariant cyfredol er mwyn lleihau'r pwysau ar ein cronfeydd wrth gefn.

# AMCANION LLESIANT A GWELLA 2020-21
# RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL

## 1. EIN CYMUNEDAU

| GWEITHIO GYDA'N CYMUNEDAU I DDATBLYGU LLES ECONOMAIDD, DIWYLLIANNOL A CHYMDEITHASOL ERYRI |
|---|

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i ddarparu tai fforddiadwy** | Er mwyn sicrhau bod Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl yn darparu asesiad o berfformiad yr Awdurdod o ran tai fforddiadwy - gan gynnwys lle bo hynny'n briodol unrhyw gamau i fynd i'r afael â thargedau na chafodd eu cyrraedd. | Trwy 2020-21 | Rheolwr Cynllunio |
| **Cefnogi datblygu economaidd cynaliadwy yn ein cymunedau sy'n defnyddio'r rhinweddau a'r cyfleoedd y mae Eryri yn eu darparu** | Cydweithio gydag asiantaethau datblygu economaidd, gan gynnwys awdurdodau lleol i weithio tuag at gydnerthedd economaidd lleol a chyfleoedd economaidd, gan gynnwys:<br>➢ Cefnogi mentrau o fewn y strategaethau twf rhanbarthol sy'n gwella cysylltedd digidol, wrth ddiogelu'r dirwedd<br>➢ Gweithio gyda'r adrannau datblygu economaidd o fewn cynghorau lleol i ddatblygu cyfleoedd a rennir sy'n gysylltiedig â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol<br>➢ Gweithio gyda phartneriaid i arallgyfeirio'r economi gan gynnwys datblygu ymgyrch i annog busnesau sy'n gallu gweithio o bell (e.e. busnesau technoleg a TG) i sefydlu yn yr ardal.<br>➢ Cefnogi cyfleoedd yn y sector twristiaeth sydd o werth uchel, o ansawdd uchel ac yn ystyriol o amddiffyn Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol<br>➢ Sicrhau bod egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy wedi'u hymgorffori ar draws y Parc Cenedlaethol | Trwy 2020-21 | Rheolwr Partneriaethau |

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o’r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy’n Gyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Sicrhau bod Fforwm Eryri yn cyfarfod i ddarparu diweddariadau ar gynnydd wrth weithredu'r Cynllun Rheoli'r Parc yr Awdurdod | Parhaus | Rheolwr Partneriaethau |
| | Parhau i weithredu Cynllun Gweithredu Partneriaeth Yr Wyddfa gyda phartneriaid | Parhaus | Rheolwr Partneriaethau<br>Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa |
| **Cyfleu buddion dynodiad Eryri fel Parc Cenedlaethol i les ein cymunedau** | Adolygu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod gan gynnwys:<br>➢ Asesu ein dull gweithredu tuag at ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gynnal adolygiad cyflawn o'r sianel (asesiad o'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwn ar gyfer cyfathrebu) o weithgareddau'r Awdurdod.<br>➢ Defnyddio'r canlyniadau i fwydo i'r Strategaeth Gyfathrebu newydd. Adlinio'r ffocws i gyfathrebu â'n rhanddeiliaid pwysicaf o ran ein negeseuon allweddol<br>➢ Datblygu a gweithredu grid cyfathrebu (cynllun calendr ar weithgareddau cyfathrebu ar-lein a thraddodiadol) ar gyfer 2020-21 sydd wedi'i ysbrydoli gan y Rhinweddau Arbennig fel y'i nodir yng Nghynllun Eryri ac sy'n dathlu Pen-blwydd y Parciau yn 70 oed | Medi 2020<br><br>Mawrth 2021<br><br>Mai 2020 yna ei adolygu yn dilyn mabwysiadu’r Strategaeth Gyfathrebu | Pen. Ymgysylltu |

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Datblygu ein gwaith o ddeall, hyrwyddo a rheoli ein treftadaeth ddiwylliannol ymhellach** | Rheoli a datblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol yn barhaus fel un o'r safleoedd treftadaeth ddiwylliannol mwyaf arwyddocaol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol i'w weithredu ar ôl Cofid-19 | Mawrth 2021 | Rheolwr Safle Yr Ysgwrn |
| | Paratoi a gweithredu strategaeth i'r Awdurdod amddiffyn, gwella a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri | Mawrth 2021 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Parhau i reoli a datblygu Prosiect Dolgellau MTT gan ddeall y bydd y prosiect yn ymofyn estyniad o ran amser oherwydd effaith Cofid-19 | Mawrth 2021 ac ymlaen | Swyddog Prosiect |
| | Nodi safleoedd archeolegol ar gyfer gwaith cadwraeth, mynediad a dehongli a chynllunio'r prosiectau hynny i'w gweithredu ar ôl COFID-19. | Mawrth 2021 | Swyddog Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Sefydlu prosiect Ffermydd Coll Ardudwy gyda phartneriaid a chymuned Ardudwy. | Mawrth 2021 | Swyddog Prosiect |

## 2. CYNLLUNIAU A PHOLISÏAU

| ADOLYGU A GWEITHREDU'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL A CHYNLLUN RHEOLI'R PARC CENEDLAETHOL (CYNLLUN ERYRI) A SICRHAU BOD EGWYDDORION LLES DEDDF CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 A DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016 WEDI'U HINTEGREIDDIO'N LLAWN I WAITH YR AWDURDOD. |
|---|

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Eryri trwy integreiddio ein rhaglen waith â Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** | Sicrhau fod Datganiad Ardal Eryri a CNC ar gyfer Gogledd Cymru yn cyd-fynd.<br>Rheolwr Partneriaethau i gydlynu ymateb APCE i Ddatganiadau Ardal drafft a bwydo dealltwriaeth ar draws amrywiol Bartneriaethau a gyda swyddogion yr Awdurdod yn cydlynu | Mawrth 2021 | Swyddog Partneriaethau |
| | Gweithio gyda swyddogion perthnasol i integreiddio rhaglenni gwaith a symud ymlaen i weithredu Cynlluniau Ardal | Mawrth 2021 | Pen. Wardeinio |
| **Gweithredu a monitro y Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol - Cynllun Eryri yn barhaus** | Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r Awdurdod sy'n amlinellu sut mae'r Cynlluniau'n perfformio yn erbyn y fframwaith monitro | Parhaus | Rheolwr Cynllunio<br>Pen. Ymgysylltu<br>Rheolwr Partneriaethau |
| | Sicrhau bod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gweithredu'n effeithiol a sicrhau dull gweithredu cyson gan swyddogion | Parhaus | Rheolwr Cynllunio |

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o’r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy’n Gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Datblygu, ymgynghori a chytuno ar amcanion strategol newydd ar gyfer Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2021 i 2026** | Mabwysiadu amcanion newydd yn barod ar gyfer 2021 ymlaen gan gynnwys tystiolaeth o ymarferion ymgynghori a datblygu polisi manwl a gwblhawyd ar gyfer y Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol statudol newydd (Cynllun Eryri) 2020-2025. | Mawrth 2021 | Prif Weithredwr |
| **Datblygu a mabwysiadu CCA perthnasol** | Asesu'r meysydd sydd angen CCA ac wedi hynny blaenoriaethu a chynhyrchu rhaglen ar gyfer eu cynhyrchu, ymgynghori a'u mabwysiadu | Parhaus | Rheolwr Cynllunio |

# 3. IECHYD A LLES

| CYDNABYDDIR PARC CENEDLAETHOL ERYRI FEL ARDAL, SY’N CYFRANNU AT LES CORFFOROL A MEDDYLIOL Y GENEDL |
|---|

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o’r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy’n Gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Hyrwyddo manteision iechyd Eryri** | Trwy gyfrwng y strategaeth gyfathrebu, amlygu buddion iechyd a lles yr amgylchedd naturiol a datblygu negeseuon allweddol sy'n gysylltiedig ag Eryri o gwmpas y rhain, yn benodol trwy gynhyrchu tudalen we gyda gwybodaeth allweddol | Tachwedd 2020 | Pen. Ymgysylltu*<br>Pen. Wardeinio |
| | Dosbarthu negeseuon allweddol i'r cyhoedd trwy'r cyfryngau digidol, cylchgrawn “Eryri” a chylchlythyr y Parc Cenedlaethol | Parhaus | Pen. Ymgysylltu |
| | Treialu datblygu cynnwys ar-lein gan hyrwyddo llwybrau a llwybr ffyrdd a chyfleoedd i wella iechyd a lles yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r gwaith yn amlwg iawn yn y brîff ar gyfer paratoi'r wefan newydd a rôl y Rheolwr Brand a Chynnwys. Yn ddarostyngedig bod cyfyngiadau Cofid-19 yn cael eu cymhwyso yn ystod y cyfnod hwn | Mai 2021 (Wedi cael ei oedi oherwydd goblygiadau Cofid-19) | Pen. Ymgysylltu*<br>Rheolwr Brand a Chynnwys<br>Pen. Gwas. Wardeinio |
| | Adolygu'r strategaeth hamdden i sicrhau bod preswylwyr ac ymwelwyr yn gallu cyrchu amrywiaeth o lwybrau sydd â'r nod o wella iechyd corfforol a meddyliol. Sicrhau ei fod yn cefnogi'r amcanion strategol a amlinellir yng NgRhP - Cynllun Eryri | Mawrth 2021 | Pen. Ymgysylltu*<br>Rheolwr Mynediad a Lles |

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddarparu cyfleoedd (gan gynnwys gwirfoddoli) sy'n cyfrannu at iechyd a lles** | Adolygu ac adnewyddu'r Strategaeth Wirfoddoli gyda ffocws o'r newydd ar Les | Gorff. 2020 (Wedi cael ei oedi oherwydd goblygiadau Cofid-19) | Pen. Ymgysylltu* Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | Mabwysiadu meini prawf i fesur buddion iechyd a lles gwirfoddoli y mae'r Awdurdod yn eu darparu. Datblygu Porth Gwirfoddolwyr fel pwynt canolog ar gyfer cofnodi a mesur cynnydd, cydlynu gweithgaredd gwirfoddolwyr ar draws yr awdurdod, a hyrwyddo cyfleoedd i ni'n hunain a'n partneriaid, mewn cydweithrediad â Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru. | Ebrill 2021 (Wedi cael ei oedi oherwydd goblygiadau Cofid-19) | Pen. Ymgysylltu* Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | Darparu a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli yn Yr Ysgwrn trwy'r cyfryngau cymdeithasol (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau Cofid-19) | Mawrth 2021 | Rheolwr Safle Yr Ysgwrn |
| | Parhau i chwarae rhan weithredol yn "Cael Gogledd Cymru i Symud" a datblygu cysylltiadau pellach er mwyn ennyn diddordeb pobl leol, gan gynnwys "Gweithwyr Cyswllt" a chysylltiadau uniongyrchol â gwasanaethau iechyd ac elusennau | Parhaus | Pen. Gwas. Wardeinio * Pen. Ymgysylltu Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | Paratoi Maniffesto Ieuenctid drafft i'w drafod a chael ei gymeradwyo gan yr Aelodau | Mawrth 2021 | Pen. Gwas. Wardeinio* Pen. Ymgysylltu |
| **Gweithio gyda phartneriaid allweddol i reoli'r ardal mewn perthynas ag unrhyw reoliadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod wrth ddelio â phandemig Cofid-19** | Parhau i weithio gyda chynrychiolwyr o Dirweddau Dynodedig ar hyd a lled Cymru, Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru i rannu arfer da a datblygu polisi ynghylch egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy | Mawrth 2021 | Prif Weithredwr Pen. Ymgysylltu |
| | Parhau i weithio gyda grŵp celloedd Cyfathrebu Gogledd Cymru i gytuno a lledaenu negeseuon allweddol | Parhaus- tra bo angen | Pen. Ymgysylltu |

# 4. POBL, LLEOEDD A PHARTNERIAID

| DROS Y PUM MLYNEDD NESAF RYDYM YN ANELU AT HYRWYDDO’R CYFLEOEDD I WEITHIO GYDA PHOBL, GWIRFODDOLWYR A PHARTNERIAID MEWN FFORDD GYDWEITHREDOL. BYDD HYN YN EIN GALLUOGI I BARHAU I GYFRANNU AT WERTHFAWROGI A RHEOLI’R HYN SY’N GWNEUD ERYRI YN WERTHFAWR AC YN ARBENNIG |
|---|

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o’r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy’n Gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Buddsoddi mewn gwirfoddolwyr i ychwanegu gwerth at gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod** | Parhau i fonitro er mwyn asesu sut mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cyfrannu at ein gweledigaeth a'n pwrpasau statudol | Parhaus | Pen. Ymgysylltu |
| | Ymgysylltu â gwirfoddolwyr yn rheolaeth Yr Ysgwrn mewn ffordd ystyrlon trwy ymgynghori'n rheolaidd trwy e-bost, galwadau ffôn a phan fydd cyfyngiadau Cofid-19 yn cael eu llacio, trwy gyfrwng cyfarfodydd tîm | Mawrth 2021 | Rheolwr Safle Yr Ysgwrn |
| **Asesu effeithiolrwydd fframwaith yr Awdurdod ar gyfer gwirfoddoli** | Adroddiad blynyddol yn monitro gweithrediad y fframwaith ar gyfer gwirfoddoli i Aelodau | Mawrth 2021 | Pen. Ymgysylltu |

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Cefnogi datblygiad "Cynlluniau Lle" yn Eryri** | Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa yw'r Cynllun Lle cyntaf wedi'i fabwysiadu yn Eryri. Asesu a allai dull gweithredu tebyg fod o fudd i rannau eraill o'r Parc | Mawrth 2020 | Pen. Gwas. Wardeinio |
| | Sicrhau bod dangosyddion o fewn Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa yn cael eu monitro a'u hadrodd i'r Awdurdod yn flynyddol a bod y prosiectau canlynol yn cael eu blaenoriaethu:<br>➢ Adolygiad o barcio a chludiant yn ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen<br>➢ Cynhyrchu Cynllun Cyfathrebu ar gyfer Partneriaeth Yr Wyddfa<br>➢ Sefydlu cynllun llysgennad ar gyfer busnesau lleol<br>➢ Bydd ail-broffilio cwblhau prosiect arhosfan bysiau Tais Nant Peris. (Wedi cael ei oedi oherwydd goblygiadau Cofid-19)<br>➢ Cynhyrchu Ap ar gyfer Yr Wyddfa (i'w dreialu ar gyfer ei ehangu i'r Parc Cenedlaethol cyfan) | Adroddiad Blynyddol<br><br>Mawrth 2021<br><br>Haf 2021<br><br>Mawrth 2021 | Rheolwr Partneriaethau * Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa |
| **Gwella ymwybyddiaeth a defnydd o'r iaith Gymraeg** | Asesu'r cynlluniau llesiant mabwysiedig sy'n berthnasol i ardal yr Awdurdod i nodi camau priodol i'w cymryd gan yr Awdurdod mewn partneriaeth ag eraill wrth wella ymwybyddiaeth a'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. | Mawrth 2021 | Prif Weithredwr |
| | Parhau i flaenoriaethu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith waith yr Awdurdod ac y gall yr holl staff sy'n debygol o fod yn ymdrin â'r cyhoedd ymateb i ymholiadau yn Gymraeg a Saesneg | Parhaus | Cyfarwyddwr Gwas. Corfforaethol |
| | Gweithio gyda cholegau lleol a'r brifysgol i sicrhau cyfranogiad gweithredol gydag unrhyw gynnwys a gwefannau gwybodaeth ar-lein ynghylch lleoliadau gwaith, gwirfoddoli a chyfleoedd gyrfa, a fyddai'n cynnwys gwaith ar hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau iaith Cymraeg wrth gael gwaith gyda'r Awdurdod. Cymryd rhan mewn unrhyw yrfaoedd a ffeiriau swyddi, digwyddiadau, trafodaethau a sgyrsiau gwe ar-lein / anghysbell, os cânt eu sefydlu fel dewis arall yn lle'r cyfleoedd wyneb yn wyneb traddodiadol. | 2020/21 Blwyddyn Academaidd | Pen. Gwas. Gweinyddol o Gofal Cwsmer |

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gwella ymwybyddiaeth a'r defnydd a wneir o'r Gymraeg** | Sicrhau bod yr holl ddeunydd cyfathrebu ar gael yn ddwyieithog | Parhaus | Pen. Ymgysylltu |
| | Darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg i gymryd rhan mewn gweithgareddau, yn cynnwys gwirfoddoli yn Yr Ysgwrn | Mawrth 2021 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Hyrwyddo Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol ac fel canolfan i wella ymwybyddiaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg | Mawrth 2021 | Pen Tref. Ddiwylliannol |
| **Gweithio gyda'n partneriaid lleol, cenedlaethol a rhanbarthol i fynd i'r afael â'r heriau a rheoli'r ardal unwaith y bydd y rheoliadau sy'n rheoli symud ar ôl Covid-19 yn cael eu llacio.** | Parhau i weithio gyda'r sector Twristiaeth trwy Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru | Parhaus | Pen. Ymgysylltu |
| | ➢ Cynnal ymarfer cofrestr risg yn croesgyfeirio â Pholisi A3.3, gan sicrhau y rhagwelir mesurau parodrwydd a lliniaru. *(Polisi A3.3 Archwilio ymarferoldeb dull gweithredu Mynegai Bregusrwydd Hinsawdd (MBH) tuag at asedau treftadaeth naturiol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol.)*<br>➢ Gyda mewnbwn gan bartneriaid allweddol, ystyried yr hyn a ddysgwyd pandemig COFID 19. | Mawrth 2021 | Rheolwr Partneriaethau |

# 5. CYDBWYSO EIN HADNODDAU A'N HYMDRECHION

| MAE'R AWDURDOD YN TARGEDU EI ADNODDAU I GYFLAWNI EI FLAENORIAETHAU O FEWN YR ADNODDAU LLAI SYDD AR GAEL |
| --- |

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| **Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel gan gynnwys gwerthusiadau ffurfiol blynyddol i gynorthwyo gyda rheoli perfformiad** | Pob cyfarfod staff yn cael ei gynnal o leiaf unwaith y flwyddyn ac yn ôl yr angen | 2020/21 | Prif Weithredwr |
| | Diweddariadau gwasanaeth chwarterol yn cael eu rhoi i'r holl staff ac aelodau | 2020/21 | Prif Weithredwr |
| | Mae holl staff yr Awdurdod wedi cael eu gwerthuso yn ystod y 12 mis diwethaf | Rhag. 2020 | Pen. Personél |
| | Ymgymerwyd ag asesiad o anghenion hyfforddi | Mawrth 2021 | Pen. Personél |
| | Sicrhau bod Penaethiaid Gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd â'u staff i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am ddatblygiad ac i gynorthwyo rheoli perfformiad | 2020/21 | Cyfarwyddwyr / Pen. Gwasanaeth |
| | Hwyluso cyfarfodydd y Fforwm Rheoli Staff | 2 x gyfarfod yn 2020/21 | Pen. Personél |
| **Datblygu a chefnogi Aelodau i reoli'r Awdurdod yn ystod y cyfnod hwn o newid** | Mae 100% o aelodau newydd yr Awdurdod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis wedi mynychu cyfnod ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd | Parhaus | Swyddog Gwas. Aelodau |
| | Mae'r aelodau wedi ymgymryd â Chyfarfod Adolygu Datblygiad Personol yn seiliedig ar eu hanghenion datblygu a chefnogaeth | Medi 2020 ymlaen | Pen. Personél |

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Denu cyllid allanol i hyrwyddo gwaith yr Awdurdod wrth gyflawni ei bwrpasau statudol** | Gweithio o fewn y Bartneriaeth i gyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a datblygu cyfleoedd pellach ar gyfer cyllid allanol | Parhaus | Pen. Gwasanaethau |
| **Adolygu ymrwymiadau gwariant presennol er mwyn amddiffyn yr Awdurdod rhag colli ffrydiau incwm yn y cyfnod hwn** | Asesu ac ail-bwrpasu lle bo hynny'n bosibl cyllid pwysau gwariant Llywodraeth Cymru heb ei wario | Mawrth 2021 | Prif Weithredwr |
| | Asesu yr opsiynau perthnasol i'r Gronfa Gomisiynu:<br>Gellir rhyddhau cyllid wedi'i neilltruo ar gyfer cynnal arolwg cynhwysfawr o drigolion ac ymwelwyr y PC (45k) gan na fydd yn bosibl cwblhau cwmpas y gwaith hwn yn 2020. Byddem yn anelu at ail-dendro ar ddechrau 2021 ar gyfer y gwaith, i'w gwblhau erbyn diwedd 2021.<br>Gellir rhyddhau cyllid pellach sydd wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau o dan Gynllun Eryri (15k) hefyd gan na fydd yn bosibl dechrau y prosiectau hyn hyd nes y bydd adferiad yn digwydd yn ardal y Parc Cenedlaethol ar ôl COFID-19.<br>Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 Cronfa Comisynu Eryri - gellid ei defnyddio i sicrhau bod seilwaith yn y Parc Cenedlaethol yn gydnerth er mwyn dechrau gweithredu'r prosiectau a amlinellir yn y Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol newydd (i'w fabwysiadu 2020) | Mawrth 2021 | Rheolwr Partneriaethau |
| | Gwireddu arbedion cost yn sgil llai o weithrediadau mewn meysydd parcio a thoiledau cyhoeddus i leihau'r diffyg incwm o feysydd parcio yn ystod cloi Cofid-19. Adolygu gwaith cynnal a chadw a gohirio gwaith nad yw'n fater o frys hyd at 2021/22 i leihau pwysau cyllidebol. | Mawrth 2021 | Pen. Eiddo |
| | Cynllun Rheoli Asedau i'w adolygu yn unol â hynny a gohirio mabwysiadu gwaith newydd am 12 mis | Mabwysiadu cyn Mawrth 2022 | Pen. Eiddo |

| Byddwn yn cyflawni hyn drwy: | Disgrifiad o’r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol | Amserlen | Swyddog(ion) sy’n Gyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Adolygu gwaith cynnal a chadw a gohirio gwaith nad yw'n fater o frys hyd at 2021/22 i leihau pwysau cyllidebol | Mawrth 2021 | Pen. Eiddo |
| | Adolygu'r Cynllun Rheoli Asedau a gohirio mabwysiadu'r cynllun newydd am 12 mis | Mawrth 2022 | Pen. Eiddo |
| Ail-broffilio pob prosiect a rhaglen gyda'n partneriaid a'n cyllidwyr allweddol i sicrhau bod modd cyflawni pob un ohonynt yn dilyn y cyfyngiadau ar y gallu i gyflawni oherwydd pandemig Cofid-19 | Bydd angen cyfnod estynedig ar Tais Nant Peris y tu hwnt i Ionawr 2021 | Yr Haf 2021 | Rheolwr Partneriaethau |
| | Addasu yr holl waith maes yn unol â hynny gan amcangyfrif o oedi o 3 mis ym mhroffil gwariant grant LIC yn unol â hynny | Yr Haf 2020 | Cyfarwyddwyr<br>Pen. Gwasanaethau<br>Swyddogion Prosiect |
| | Adolygu pob prosiect sy'n seiliedig ar bartneriaeth.<br>Adolygu proffiliau gwariant, pa brosiectau a fydd / sy'n debygol o gael eu gohirio, y llithriad a ragwelir a'r canlyniadau dilynol:<br>➢ Pob prosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)<br>➢ Prosiect Coedwig Glaw Geltaidd LIFE<br>➢ Prosiect Treftadaeth Treflun Dolgellau<br>➢ Yr Ysgwrn<br>➢ Partneriaeth Tirwedd y Carneddau<br>➢ Prosiectau TAIS<br>➢ Prosiectau cyllido cyfalaf LIC<br>➢ Prosiectau SLSP<br>➢ Cyd-brosiect CNC - mawndiroedd<br>➢ Prosiectau’r Grid Cenedlaethol | Mawrth 2021 | Cyfarwyddwyr<br><br>Pen. Gwasanaethau<br><br>Swyddogion Prosiect |

**EITEM RHIF 8**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 3 Mehefin 2020 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y GWIR WEITHGARWCH RHEOLAETH TRYSORLYS YN 2019/20** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Swyddog Cyllid |
| **PWRPAS** | Adroddir yn unol â gofynion statudol. Gofynnir i aelodau'r Awdurdod nodi'r cynnwys er gwybodaeth yn unig. |

## 1. CRYNODEB

1.1 Mae'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod. Yn ystod 2019/20 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthyca. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd yr Awdurdod wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu â thalu.

1.2 Yn 2019/20, £48,077 oedd y cyfanswm llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau. Mae £1,419 o log a dderbyniwyd o fenthyciadau ceir yn cynyddu'r cyfanswm i £49,496 yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o £29,300.

1.3 Mae'r swm llog banciau a chymdeithas adeiladu o £48,077 am 2019/20 yn uwch na'r swm cyfatebol o £35,980 yn 2018/19. Y prif reswm am hyn ydyw fod HSBCMarchnadArian, Nationwide a Santander UK wedi parhau i dalu cyfradd llog uwch ar adneuon tymor drwy 2019/20.

1.4 'Roedd y pandemig COVID-19 ond wedi dechrau effeithio ar gyfraddau llog yn niwedd Mawrth, felly ni fu effaith o sylwedd ar y llog a enillwyd yn 2019/20.

## 2. CEFNDIR

2.1 Cymeradwyodd yr Awdurdod ei Strategaeth ar gyfer Rheolaeth Trysorlys 2019/20 yng nghyfarfod 6 Chwefror 2019.

2.2. Adroddir yma ar wir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys (benthyca a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2019/20.

## 3. BENTHYCIADAU

3.1 Mae canllawiau buddsoddi CIPFA a Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Awdurdod fuddsoddi yn bwyllog, gan ystyried diogelwch a hylifedd ein balansau / buddsoddiadau, yn hytrach nac anelu i sicrhau'r enillion gorau posibl.

A. **Terfynau Benthyca 2019/20**
Ar 6 Chwefror 2019 cymeradwyodd yr Awdurdod Derfynau Benthyca fel a ganlyn ar gyfer 2019/20 :-

(i) Uchafswm Benthyca Cyffredinol o £500,000 ar gyfer 2019/20, gan gynnwys Terfyn benthyca Tymor Byr o £100,000.

(ii) Peidio â gosod uchafswm ar gyfran o fenthyciadau gyda chyfradd llog newidiol.

Nodwyd pryd gosodwyd y terfynau yma eu bod 'rhag ofn', a 'doedd dim disgwyliad i'r Awdurdod fenthyg.

B. **Benthyca Gwirioneddol 2019/20**
Dechreuodd yr Awdurdod y flwyddyn ariannol heb ddyled, a thalwyd am wariant refeniw a chyfalaf yn ystod 2019/20 gydag arian grantiau a chronfeydd refeniw. Felly, o safbwynt Rheolaeth Trysorlys, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn di-ddyled.

## 4. BUDDSODDI

4.1 Bu'n bosibl i'r Awdurdod fuddsoddi ac ennill llog oherwydd ei sefyllfa'r balansau a'r llif-arian positif. Cafodd yr arian hwnnw ei fuddsoddi fel a ganlyn, yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys:

- Rhoddwyd balansau y rhagwelwyd y byddwn yn eu dal yn y tymor byr – tymor canolig yng nghyfrifon "dim rhybudd" BOS (Bank of Scotland), HSBC (cyfrif cadw), Nationwide a Santander UK, cyfrifon rhybudd 32/35 diwrnod (Bank of Scotland, HSBC a Santander UK) a chyfrifon rhybudd 95 diwrnod (Nationwide a Santander UK).
- Cadwyd balans o £1,250,000 mewn cyfrif nad yw'n ennill llog gyda Barclays (y swm angenrheidiol yn unol â'u telerau er mwyn osgoi ffioedd bancio).
- Rhoddwyd balansau gweithredol ar ddiwedd pob diwrnod yng nghyfrif banc 'Business Premium' Barclays.

4.2 Gyda chyfraddau llog yn parhau'n isel, ynghyd â'r angen i sicrhau dosbarthiad cymharol wastad o arian yr Awdurdod rhwng y sefydliadau unigol uchod, 'roedd cyfanswm y llog a enillwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 fel a ganlyn:

| Cyfrif | Balans Cyfartalog dros y Cyfnod Buddsoddi | Cyfradd Llog | Llog a Enillwyd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Cyfrif Busness Bank of Scotland (366 diwrnod mewn credyd)** | £300,000 | 0.05% | £150 |
| | | | |
| **Cyfrif Bank of Scotland 32 Diwrnod (366 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 350 diwrnod (Ebrill 1 - Mawrth 15) | £1,245,558 | 0.75% | £8,959 |
| 11 diwrnod (Mawrth 16 - Mawrth 26) | £902,466 | 0.25% | £68 |
| 5 diwrnod (Mawrth 27 - Mawrth 31) | £601,644 | 0.10% | £7 |
| | | | |
| **Cyfrif Cadw HSBC (366 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 192 diwrnod (Ebrill 1 - Hydref 9) | £1,766,283 | 0.55% | £5,096 |
| 174 diwrnod (Hydref 10 - Mawrth 31) | £526,178 | 0.20% | £500 |
| | | | |
| **Cyfrif MarchnadArian Cyfredol (156 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 156 diwrnod (Hydref 28 - Mawrth 31) | £300,613 | 0.20% | £256 |
| | | | |
| **HSBC MarchnadArian 1 mis (156 diwrnod mewn credyd)** | | | |
| 98 diwrnod | £1,349,554 | 0.66% | £2,385 |
| 31 diwrnod | £681,862 | 0.60% | £347 |
| 29 diwrnod | £1,043,510 | 0.57% | £471 |
| 29 diwrnod | £601,634 | 0.61% | £291 |
| 28 diwrnod | £802,180 | 0.58% | £356 |
| 21 diwrnod | £451,211 | 0.46% | £119 |
| (yr adneuon hyn yn medru gorgyffwrdd a thrwy hynny'n cynnyddu'r nifer dyddiau | | | |
| | | | |
| **Cyfrif Nationwide Instant Saver (366 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 366 diwrnod (Ebrill 1 - Mawrth 31) | £357,115 | 0.65% | £2,321 |
| | | | |
| **Cyfrif Nationwide 95 Diwrnod (366 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 366 diwrnod (Ebrill 1 - Mawrth 31) | £1,433,314 | 0.90% | £12,900 |
| | | | |
| **Cyfrif Business Savings Santander (366 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 366 diwrnod (Ebrill 1 i Mawrth 31) | £2,825,089 | 0.35% | £987 |
| | | | |
| **Cyfrif Cadw 35 Diwrnod Santander (366 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 366 diwrnod (Ebrill 1 - Mawrth 31) | £545,633 | 0.75% | £4,092 |
| | | | |
| **Cyfrif Cadw 95 Diwrnod Santander (366 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 366 diwrnod ( Ebrill 1 i Mawrth 31) | £970,177 | 0.90% | £8,732 |
| | | | |
| **Cyfrif Busnes Santander :** | | | |
| Cyfrif sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer bancio arian Canolfannau - llog bychan | | | |
| iawn wedi ei dderbyn. | | | £0 |
| | | | |
| **Cyfrif Business Premium Barclays (365 diwrnod) :** | | | |
| 366 diwrnod (Ebrill 1 - Mawrth 31) | £19,870 | 0.20% | £40 |
| | | | |
| **Cyfanswm y llog a enillwyd** | | | **£48,077** |

4.3 Yn bwysicach, **cadwyd holl falansau'r Awdurdod yn ddiogel, gan nad oedd unrhyw fanciau**, o'r rheiny defnyddiwyd ar gyfer buddsoddi (adnau arian) yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, **wedi methu ad-dalu.**

## 5. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i aelodau'r Awdurdod nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.**

**EITEM RHIF 9**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 03 Mehefin 2020 |
| **TEITL** | **PROFFIL RISG YR AWDURDOD** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Rhoi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Proffil Risg yr Awdurdod gan ystyried effaith COVID-19.<br><br>Dileu un risg a gwblhawyd o'r cofrestr. |

**CEFNDIR**

1.1 Mae gan yr Awdurdod Broffil Risg ac ynddo mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu yn dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sefyllfa gyfredol y Proffil Risg hwnnw a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Awdurdod yng nghyfarfod 5 Chwefror 2020.

1.2 Caiff y risgiau eu pennu'n bennaf drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Tîm Rheoli. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd chwarterol y Penaethiaid Gwasanaeth hefo'r Tîm Rheoli. Mae'r risgiau sydd wedi'u pennu yn y Gofrestr Risg yn cael eu neilltuo i'r swyddogion cyfrifol, a gosodir dyddiadau targed ar gyfer cymryd camau lliniaru. Nodir isod grynodeb o sefyllfa'r risgiau ynghyd â nodi os bu newid ers yr adroddiad yn Chwefror 2020 (manyldra yn Atodiad 1).

1.3 Nodir crynodeb o'r risgiau :

| **Risg Uchel** | **Newid** |
|---|---|
| Diffyg arian cyllido digonnol | O "Canolig" |
| Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch) | Dim (cynnydd sgôr) |
| Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio) | O "Isel" |
| Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at ddyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt. | Dim |
| Effaith yr haint Coronavirus (COVID-19) ar waith yr Awdurdod. | Newydd |

| Risg Canolig | Newid |
|---|---|
| Risg i enw da par. Rheolaeth yr Awdurdod o’r Ysgwrn | Dim |
| Methu a chyflawni gofynnion y ddeddf “Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol” | Dim |
| Risgiau i’r prosiect CTL Partneriaeth Tirwedd ar gyfer y Carneddau trwy fethu a sicrhau cyllid “heb ei gadarnhau” (un ai cyfraniadau cyfalaf neu “heb fod yn arian”) yng nghyfnod oes y prosiect. | Dim |
| Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data 2018 | Dim |
| Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfoddhaol. | Dim |
| Rheoli gwael ac aneffeithio o brosiectau gan yr Awdurdod | Dim (cynnydd sgôr) |
| Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynnion) o ganlyniad i doriadau ariannol. | Dim |

| Risg Isel | Newid |
|---|---|
| Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i’r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri | Dim |

| Cwblhawyd | Newid |
|---|---|
| Methiant i gwblhau'r Cytundeb Partneriaeth rhwng prif fuddiolwyr y prosiect mewn perthynas â phrosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd. | O “canolig” |

**GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**
Dim yn codi o’r Adroddiad hwn.

**ARGYMHELLIAD**

1. **Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.**

2. **Tynnu’r risg a “gwblhawyd” sef cwblhau Cytundeb Partneriaeth cynllun LIFE – Coedwigoedd Glaw Celtaidd o’r gofrestr.**

**PAPURAU CEFNDIR**
Dim

**COFRESTR RISG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

| Cyf. | Disgrifiad risg | Canlyniad | Risg Cynhenid Effaith | Risg Cynhenid Tebyg. | Risg Cynhenid Canlyniad | Mesurau rheoli / gweithredoedd | Gweddill risg Effaith (1-5) | Gweddill risg Tebyg. (1-5) | Gweddill risg Canlyniad | Cyfeiriad risg | Agosrwydd (A,C,P) | Perchennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Diffyg arian cyllido craidd digonol | Torri Gwasanaethau | 5 | 3 | 15 | Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyllid "ôl-ddilynol" digonnol gan San Steffan a ddylai fedru galluogi Llywodraeth Cymru i gynnal a gwella lefel y grant Parc Cenedlaethol ar gyfer 2020/21. Er bod setliad 2020/21 Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn 0% gwastad, sy'n doriad mewn termau gwirioeddol, gosododd APCE gyllideb gytbwys ar gyfer 2020/21 yn Chwefror 2020 a chadw cronfeydd wrth gefn digonnol. Ers hynny, mae'r argyfwng COVID-19 a chyfnod cau-i-lawr yn golygu y gall APCE wynebu colledion incwm net posibl o rhwng £511k a £1.34m yn 2020/21. Mae'r Cadeirydd a swyddogion y Parc yn chwilio i opsiynau cyllido lle gall Llywodraeth Cymru gyfrannu tuag at y bwlch cyllido hwn. Tra bo hyn yn ddiffyg un-tro, gall yr effaith ar rhai ffynhonnellau incwm ymestyn am flynyddoedd i'r dyfodol. | 3 | 5 | 15 | ↑ | A (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Prif Swyddog Cyllid |
| 2 | Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch) | Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. | 4 | 5 | 20 | Mae'r gwasanaeth yn dangos diffyg yn erbyn ei gyllideb ddiwygiedig. Mae yma chwilio am ymgynghorwyr i gyd-weithio gyda'r Awdurdod i ddatblygu Cynllun Busnes realistig a chadarn fyddai'n edrych ar sut i leihau costau a chynyddu incwm a chadarnhau blaenoriaethau busnes y ganolfan. Mae prosiect ar sut i ddatblygu'r anecs yn hostel ac ail-ddatblygu'r prif ystafelloedd gwely yn y prif dy wedi ei gytuno gan Fwrdd Rheoli'r Plas, hyn wedi ei gyllido gan fwyaf gan Llywodraeth Cymru. Ar gwblhau'r gwaith y rhagolwg ydy y byddai'r Ganolfan yn cyrraedd sefyllfa wastad yn erbyn cyllideb gyda dim cost net i'r Awdurdod ymhen 2 flynedd. Mae'r system llogi ar gyfer llety a chyrsiau yn cael ei newid i alluogi llogi ar-lein ac i'r llety fod ar gael ar-lein i Asiantau Teithio.<br>Mae'r Ganolfan wedi gorfod cau oherwydd y pandemig COVID-19. Hyd yma nid oes awgrym o pryd y gellir dychwelyd i drefn gwaith arferol, ni ragwelir y bydd hyn yn y dyfodol agos. Mae incwm wedi gostwng i ddim gyda rhai arbedion mewn costau – mae'r Awdurdod yn edrych ar ffyrdd i liniaru costau pellach. | 5 | 5 | 25 | ↑ | A (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Pennaeth Busnes - Plas Tan y Bwlch, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| 3 | Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio) | Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. | 4 | 5 | 20 | Oherwydd y pandemig COVID-19 a'r mesurau cau-i-lawr a weithredwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Chymru i leihau ymlediad y feirws mae'r holl feysydd parcio wedi eu cau. Mae hyn yn debygol o achosi colled incwm masnachol sylweddol ac ar hyn o bryd ni wyddir pryd fydd y safleoedd yn ail agor. Mae camau wedi eu cymryd i leihau costau ac ail-drefnu gwaith i leihau y diffyg incwm, ond y tebygrwydd ydy diffyg sylweddol yn erbyn targed. | 4 | 5 | 20 | ↑ | A (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Pennaeth Eiddo, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| 4 | Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yng ngallu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau. | 5 | 3 | 15 | Datblygwyd safle Yr Ysgwrn yn llwyddiannus, gyda dim ond rhai manylion i'w cadarnhau a'u cwblhau erbyn Gorffennaf 2020. yn golygu y bydd oediad gyda chwblhâd y prosiect. Mae estyniad amser eisoes wedi ei drafod gyda'r Gronfa Treftadaeth a bydd cadarnhau ar ddyddiad cwblhau newydd yn hwyrach yn 2020. Mae cau'r safle am y dyfodol rhagweledig yn anorfod yn mynd i olygu colled incwm. Mae chwilio am arbedion fel arall, yn cynnwys rhoi staff ar y cynllun ffyrlo. Mai cais yr Ysgwrn ar gyfer y Cynllun Gwresogi Adnewyddol wedi llwyddo a'r taliad cyntaf wedi ei dderbyn. Yn ystod y cyfnod cau-i-lawr bydd y Pennaeth Treftadaeth Diwylliannol yn cydlynu gweithgaredd marchnata, datblygu cynulleidfa ac addysg i ddarparu at ail-agor y safle maes o law. Mae'r Grŵp Prosiect yn dal i gyfarfod bob deufis i fonitro cynnydd ac i ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n codi. Bu i Fwrdd yr Ysgwrn gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2020 i ddechrau llywio'r cynllun busnes ar gyfer y cyfnod wedi i'r grant CDL ddod i ben. | 3 | 3 | 9 | → | A (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Prif Weithredwr |
| 5 | Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid. | 4 | 3 | 12 | Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa. Mae is-grŵp i Gynllun Yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafnidiaeth / parcio yn yr ardal. Mae astudiaeth ar reolaeth traffig ar gyfer ardaloedd y Wyddfa ac Ogwen wedi ei gomisiynu. | 2 | 2 | 4 | ↓ | A (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Prif Weithredwr |
| 6 | Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol | Adroddiad archwilio critigol / cyhoeddusrwydd negyddol | 3 | 3 | 9 | Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru ar gynllun peilot i ddatblygu ei effeithiolrwydd er mwyn gweithredu gofynion y Ddeddf Llesiant. Mae SAC wedi cytuno rhaglen 4 blynedd ar agweddau o'r Pum Modd o Weithio o dan yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Y rhaglen ydyw:<br>• 2018-19 Cyd-weithio a Phartneriaethau (cwblhawyd),<br>• 2019-20 Ymglymiad, cyfranogiad, ymgynghoriad ac ymgysylltu,<br>'Roedd y rhaglen gytunedig am y blynyddoedd nesaf wedi ei gadarnhau fel a ganlyn :<br>• 2020-21 Integreiddio o bolisiau a gwasanaethau,<br>• 2021-22 Atal pethau drwg.<br>Mae SAC, serch hynny, wedi dewis gwytnwch yr Awdurdod fel maes archwilio perfformiad am 2020/21. | 3 | 3 | 9 | → | C (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Prif Weithredwr |
| 7 | Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau trwy fethu a chyflawni'r prosiect. Gall hyn ddigwydd trwy fethu a chadw at y pwrpasau a gymeradwywyd ar gyfer y grant Cronfa Dreftadaeth Lotri Cenedlaethol, oediad gyda phenodi staff i'r cynllun ac felly oediad gyda chychwyn y cynllun, oediad gyda thalu hawliadau grant, y bartneriaeth yn chwalu, methu â derbyn yr arian "heb ei sicrhau" a ddisgwylir trwy geisiadau grant pellach a chyfraniadau "mewn nwyddau" yn ystod oes y prosiect. | Bydd y canlyniadau'n amrywio'n helaeth yn dibynnu ar raddfa'r cyllid na ellir ei sicrhau. Gallai fod rhai elfennau o'r prosiect yn methu, hyd at risgiau sylweddol i'r prosiect cyfan, sy'n amlwg yn dod â chyhoeddusrwydd andwyol a niwed i enw da. | 3 | 4 | 12 | Bydd y Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwr Prosiect yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau fod cyfraniadau "mewn nwyddau" yn digwydd ac y cyflwynir ceisiadau grant effeithiol. Mae'r taliad terfynol ar gyfer Cyfnod Datblygu'r Cynllun bellach wedi'i dderbyn.<br>Derbyniwyd caniatad i ddechau'r Cyfnod Gwireddu ym mis Ionawr 2020. Mae Rheolwr y Proiect wedi ei apwyntio ac mae'r drefn o apwyntio staff y prosiect mewn llaw. Mae trefn o wybyddu Partneriaid o gynnydd, cyafrfod Partneriaeth wedi ei gynnal a Grwp Craidd wedi ei sefydlu a chyfarfod. Yn ogystal mae Cadeirydd Partneriaeth wedi ei apwyntio. Mae'r holl bartneriaid wedi llofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth (dim grym cyfreithiol) er mwyn sicrhau ymrwymiad i'r bartneriaeth; a bydd y partneriaid craidd, sydd wedi addo'r mwyaf yn nhermau cyllid a chyfraniadau mewn nwyddau, yn rhan o Gytundeb Partneriaeth (gyda grym cyfreithiol) sydd wedi ei ddarparu a'i rannu gyda'r partneriaid craidd. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwraig Prosiect yn parhau i weithio'n agos gyda chyllidwyr i sicrhau fod diwallu ar holl ofynnion cyllido a phwrpasau cymeradwy. Mae'r argyfwng COVID-19 un achosi risg i amserlen y cynllun ac mae hyn yn cael ei drafod gyda'r Gronfa Dreftadaeth a phartneriaid. Bydd effaith llawn COVID-19 ar y cynllun dod yn fwy eglur dros y frlwyddyn a ddaw. Mae estyniad amser yn cael ei drafod gyda'r Gronfa Dreftadaeth ac yn debygol o gael ei gymeradwyo. | 3 | 2 | 6 | ↓ | A (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Pennaeth Gwasanaeth Treftadaeth Ddiwylliannol |
| 8 | Anghydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR) | Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi | 4 | 3 | 12 | Mae hyfforddiant drwy e-ddysgu wedi ei gwblhau gan holl staff parhaol. Rhoddwyd datganiad preifatrwydd ar y wefan, a datganiad e-bost i'n cwsmeriaid ac ati. Mae gwaith yn parhau ar dacluso ein data a hyfforddiant pellach i rhai staff. | 3 | 2 | 6 | → | A (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Pennaeth Technoleg Gwybodaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| 9 | Methu â chwblhau cytundeb partneriaeth rhwng prif fuddiolwyr y prosiect mewn perthynas â phrosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw | Bod oedi sylweddol yn cael ei achosi i ddechreuad y prosiect, neu na fyddwn yn cyflawni rhai agweddau o'r prosiect | 5 | 1 | 5 | Pawb wedi arwyddo erbyn hyn gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru. | 5 | 0 | 0 | ↓ | A (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Prif Weithredwr / Rheolwr Prosiect |
| 10 | Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt | Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn | 5 | 3 | 15 | Ymhellach i drafodaethau rhwng yr Uwch Reolwr Prosiect (URP) ac EASME (Comisiwn Ewropeaidd), bydd yr Adroddiad Cynnydd Canol-Tymor a chais am daliad i'w cyflwyno yn Hydref 2020 (gohirwyd o Ionawr 2020). 'Roedd yr URP wei gobeithio bod mewn sefyllfa i gyflwyni cais yn gynharach na Hydref - ond mar cyfnod cau-i-lawr o ganlyniad i bandemig COVID-19 wedi creu amheuaeth am hyn. Ar hyn o bryd mae'r prosiect oddeutu £300,000 yn fyr o'r gwariant angenrheidiol ar gyfer cyflwyno cais am y taliad interim cyntaf. Mae'r prosiect wedi gwario oddeutu £1,250,000 a thrwy hynny'n cyflawni'r £1,000,000 isafswm gwariant oedd yn angenrheidiol ar gyfer gofynnion gwariant Llywodraeth Cymru am 18/19 a 19/20. Mae £1,000.000 arall i'w hawlio am y flwyddyn ariannol 2020/21 aac mae pryder cynyddol na ellir cyflawni'r targed hwn odan amodau gwaith presennol yn deillio o bandemig COVID-19; serch hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ail-broffilio a chynyddu'r swm hawliadwy am 2019/20 sy'n lleihau targed 20/21 i oddeutu £700k. | 4 | 4 | 16 | ↑ | A (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Prif Weithredwr / Rheolwr Prosiect |
| 11 | Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfoddhaol | Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymhlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifat, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach | 4 | 3 | 12 | Er fod y prosiect wedi llithro yn erbyn proffil o safbwynt gwariant, fe fu dal i fyny sylweddol yn ystod chwarter 4 2019/20. Mae safon y gwaith sydd wedi ei wneud yn dda a'r partneriaid i'w gweld yn hapus hefo'r hyn sy'n cael ei wneud, a gyda chyfleon i gyfrannu at a llywio'r prosiect trwy eu cynrhychiolaeth ar y Bwrdd Prosiect a Grŵp Cyflawni. Yn ychwanegol, mae EASME (Comisiwn Ewropeaidd) wedi cymeradwyo adroddiad cynydd cyntaf y prosiect a gyflwynwyd yn Ionawr 2020.<br>Mae'r cyfyngiadau a roddwyd ym Mawrth 2020 o ganlyniad i bandemig COVID-19 wedi arafu rhaglenni gwaith yn sylweddol, gyda phryderon y byddai "cau-i-lawr" yn lleihau'n sylweddol y gwaith ar y ddaear, ac felly gwariant, yn 2020/21. Mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn gyda'r prif gyllidwyr (EASME/LIC) parthed effeithiau posibl a datblygu darpariaethau. | 4 | 3 | 12 | → | A (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Prif Weithredwr / Rheolwr Prosiect |
| 12 | Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod | Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod. Risg i enw da'r Awdurdod. Cyfleoedd ariannol yn cael eu colli. | 3 | 3 | 9 | Mae'n rhaid i swyddogion ddilyn canllawiau safonol a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli prosiectau - gan gynnwys creu "Dogfen Ysgogi Prosiect" a chael cymeradwyaeth y tîm rheoli ar gyfer y ddogfen hon. Mae hyn yn creu sail ar gyfer rheoli ac ar gyfer cyfathrebu (mewnol ac allanol) ar brosiectau yn gyson ar draws yr Awdurdod. Mae'r pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau perthnasol angen ystyriaeth a chytundeb gyda phartneriaid a chyllidwyr prolsiectau ar ail-broffilio a sut i symud ymlaen. | 2 | 4 | 8 | ↑ | A (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Tîm Rheoli |
| 13 | Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynnion) o ganlyniad i doriadau ariannol. | Effaith ar gadw staff a recriwtio ac hefyd perfformiad yr Awdurdod. | 3 | 3 | 9 | Mae cyfres o fesurau i ddelio gyda gwytnwch yn cynnwys: 1. gwerthusiad blynyddol ar gyfer staff unigol, 2. datblygiad cynllun llesiant staff yn y gweithle, 3. sefydlu cronfa wrth gefn ar gyfer gwytnwch staff 4. cyfraddau cadw staff a salwch. | 3 | 3 | 9 | → | A (adolygwyd Awdurdod 5/2/2020) | Tîm Rheoli |
| 14 | Effaith yr haint Coronavirus (COVID-19) ar waith yr Awdurdod. | Yr Awdurdod yn methu a gweithredu o ran cyflawni dyletswyddau dyddiol a statudol. Colledion ariannol, methu a thalu cyflenwyr,a methiant cyffredinol i gynnal systemau arferol. Yr Awdurdod yn methu:<br>• ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol,<br>• i gyflawni yn erbyn y rhaglen waith gorfforaethol,<br>• i dalu staff a chyflenwyr,<br>• i ennill incwm yn erbyn targedau a gytunwyd,<br>• cefnogi llesiant cymdeithasol ac economaidd yr ardal,<br>• cefnogi llesiant staff. | 4 | 5 | 20 | Mae angen sicrhau fod mesurau mewn lle parthed prif systemau'r Awdurdod a gallu staff allweddol i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r Tîm Rheoli a'r Pennaethiaid Gwasanaeth wrthi'n trafod mesurau penodol ar gyfer hyn | 4 | 5 | 20 | ↑ | A (newydd) | Tîm Rheoli |

| Graddio | | Sgôr |
|---|---|---|
| Isel | (gwyrdd) | 1 - 4 |
| Canolig | (oren) | 5 - 14 |
| Uchel | (coch) | 15 - 25 |

**EITEM RHIF 10**

**ADRODDIAD GWEITHGOR AELODAU A GYNHALIWYD AR 22 IONAWR 2020**

***PRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cyng Freya Bentham, Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Edgar Owen, John Pughe Roberts, Gethin Williams;

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cyng Philip Capper, Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

**Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Ms. Elinor Gwynn, Mr. Owain Wyn;

**Swyddogion**
Mr. Emyr Williams, Mr. G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Mrs. Anwen Gaffey;

**Hwyluswyr yn bresennol**
Mr. Grant Peisley and Ms. Abigail Tweed.

1. **Ymddiheuriadau**
   Cyng Judith Humphreys, Elfed Roberts; Mr. Neil Martinson; Mr. Dafydd Edwards, Section 151 Officer.

2. **Datgan Budd**
   Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**
   Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion Gweithgor yr Aelodau a gynhaliwyd ar 4ydd Rhagfyr 2019 gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

4. **Amcanion Llesiant**
   Cyflwynwyd - Adroddiad cefndir gan y Prif Weithredwr i gynorthwyo Aelodau i nodi materion strategol y gallai fod angen i'r Awdurdod fynd i'r afael â hwy yn ei Amcanion Lles.

   Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a oedd yn darparu’r cefndir a'r cyd-destun. Dywedodd fod Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod yn y blynyddoedd blaenorol wedi bod yn seiliedig ar faint o adnoddau oedd ar gael, ond nawr, gofynnwyd i'r Aelodau fod yn fwy beiddgar ac uchelgeisiol a chanolbwyntio ar faterion strategol.

   Yn codi ar hynny, cyflwynodd y Prif Weithredwr Mr Grant Paisley a Ms Abigail Tweed, yr hwyluswyr allanol, i'r cyfarfod. Rhoddodd Mr. Paisley amlinelliad byr o'r diwrnod a dywedodd y byddai'r Gweithdy wedi'i rannu'n ddwy ran. Yn gyntaf, er bod yr Aelodau eisoes wedi nodi nifer fawr o amcanion lles yn y gweithdy a'r seminar flaenorol, roedd yn ofynnol iddynt nawr edrych ar y darlun ehangach a mabwysiadu strategaeth glir. Ar ôl cytuno ar yr amcanion drafft, gofynnir i'r Aelodau wedyn ystyried sut i fesur yr amcanion. Dywedodd Mr Paisley y byddai swyddogion yn gweithio i nodi'r gweithredoedd a'r rhaglen waith yn ddiweddarach.

Ar ôl i'r gweithdy fynd rhagddo, gadawodd y Tîm Rheoli a'r staff y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad a gweithio gyda'r hwyluswyr allanol i nodi materion strategol y gallai fod angen i'r Awdurdod fynd i'r afael â hwy yn ei Amcanion Lles.**
2. **aros am adroddiad pellach gan swyddogion (ar ôl derbyn adroddiad yr 'hwyluswyr') i gytuno ar Amcanion Lles ar gyfer ymgynghori anffurfiol yn ystod haf 2020**

**Daeth y cyfarfod i ben am 15.30**

**ADRODDIAD Y GWEITHGOR AELODAU A GYNHALIWYD AR 4 MAWRTH 2020**

***PRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cyng Freya Bentham, Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Owen, Elfed Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Williams;

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cyng Philip Capper, Ifor Glyn Lloyd;

**Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru**
Ms. Tracey Evans, Mr. Neil Martinson, Mr. Owain Wyn (Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn);

**Swyddogion**
Mr. Emyr Williams, Mr. G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Mrs. Anwen Gaffey;

1. **Ymddiheuriadau**
Cyng Wyn Ellis Jones; Mr. Brian Angell, Ms. Elinor Gwynn;
Mr. Dafydd Edwards, Swyddog Adran 151.

2. **Datgan Budd**
Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fudd personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion Gweithgor yr Aelodau a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2020 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.
Yn codi yn sgil hynny,
<u>4. Amcanion Llesiant</u> – Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod wedi derbyn adroddiad yr 'hwyluswyr' ac y byddai copi ymlaen llaw yn cael ei ddarparu ar gyfer yr Aelodau. Yn ogystal, dywedwyd wrth yr Aelodau ynghyllch argymhelliad yr hwyluswyr i leihau nifer yr amcanion strategol yr ymgynghorir arnynt ac y dylai'r Awdurdod hefyd geisio barn rhanddeiliaid ar sut y byddent yn diffinio llwyddiant yr amcanion strategol arfaethedig.

4. **Cymynroddion a Rhoddion**
Cyflwynwyd - Adroddiad er gwybodaeth gan y Prif Weithredwr i'r Aelodau nodi'r sefyllfa mewn perthynas â chymynroddion a rhoddion.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a oedd yn rhoi cefndir a manylion am sefyllfa bresennol yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

5. **Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Life**
Adroddwyd - Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd Uwch Reolwr Prosiect LIFE wedi gallu mynychu'r cyfarfod oherwydd amgylchiadau annisgwyl ac y byddai ei eitem yn cael ei chyflwyno i gyfarfod yn y Gweithgor Aelodau yn y dyfodol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.30**